Mwy na dewis olaf: Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora AHY yng Nghymru, a'u hansawdd

Mawrth 2026

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a darparwyr meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys Tudalen

Crynodeb gweithredol **1**
Cyflwyniad **7**
Cefndir **11**
Argymhellion **17**

Pennod 1: Trefniadau awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion addysgol disgyblion sydd angen tiwtora unigol, ac ansawdd y cynnig **19**
Rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol 19
Comisiynu gwasanaethau tiwtora gan awdurdodau lleol yn strategol 24
Trefniadau i ddiwallu anghenion addysgol disgyblion unigol, yn cynnwys disgyblion ag ADY 25
Cyfnod pontio ac ailintegreiddio disgyblion 27
Mynediad at gynnig cwricwlwm perthnasol, eang a chytbwys 29
Cyfoethogi'r cwricwlwm a chymorth lles 36
Sut caiff y cwricwlwm ei bersonoli i ddiwallu anghenion disgyblion 39
Mynediad at addysg trwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg 42
Safbwyntiau disgyblion, rhieni a gofalwyr 44

Pennod 2: Llywodraethu ac atebolrwydd **46**

Sut mae awdurdodau lleol yn monitro a sicrhau ansawdd effaith gwasanaethau tiwtora 46
Prosesau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol, yn cynnwys defnyddio data 48
Monitro mynediad at gwricwlwm perthnasol, eang a chytbwys 48
Monitro presenoldeb a diogelu disgyblion sydd angen tiwtora 50
Rôl aelodau etholedig awdurdodau lleol, yn cynnwys craffu 51

Cwestiynau cyffredin **54**
Dulliau a sail y dystiolaeth **57**
Geirfa **59**
Cyfeiriadau **62**
Atodiad 1: Mwy o arweiniad **65**

Crynodeb gweithredol

Beth wnaethom ni

Mae'r adroddiad thematig hwn yn archwilio'r trefniadau ar gyfer gwersi tiwtora i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ledled Cymru, ac ansawdd y gwersi hynny.

Os ydych chi'n newydd i AHY neu wasanaethau tiwtora, gweler y Cwestiynau Cyffredin ar dudalen 54.

Rydym wedi ystyried pa mor dda mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Edrychom hefyd ar ba mor effeithiol mae gwasanaethau tiwtora yn cefnogi dysgu, lles a dilyniant disgyblion. Mae'r adroddiad hefyd yn rhannu arfer effeithiol, lle mae wedi'i nodi.

Daeth ein tystiolaeth o arolygon a thrafodaethau ag awdurdodau lleol ac ymweliadau ag 14 o ddarparwyr tiwtora, yn cynnwys gwasanaethau awdurdodau lleol, ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a darparwyr wedi eu comisiynu. Yn ystod ymweliadau, siaradom ag arweinwyr, tiwtoriaid, disgyblion a rhieni neu ofalwyr. Arsylwom ddysgu, adolygu gwaith disgyblion ac archwilio dogfennau fel cynlluniau datblygu unigol (CDUau), trefniadau cynllunio'r cwricwlwm a phontio. Siaradom â thros 60 o ddisgyblion.

Beth oedd ein canfyddiadau

Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol

Mae gan awdurdodau lleol rôl statudol mewn sicrhau bod disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol yn parhau i gael addysg addas. Yn yr awdurdodau cryfaf, mae gan arweinwyr weledigaeth strategol glir ar gyfer gwasanaethau tiwtora. Maent yn ystyried bod tiwtora yn ymyrraeth bwrpasol, a lle bo'n briodol, wedi'i chyfyngu gan amser sy'n cefnogi disgyblion i gynnal neu ailymgysylltu â dysgu a pharatoi ar gyfer llwybrau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae **arweinyddiaeth strategol a llywodraethu yn anghyson** ledled Cymru. Mewn gormod o awdurdodau, mae diffyg eglurder a chydlyniant mewn trefniadau. Mae hyn yn arwain at ddarpariaeth dameidiog a disgwyliadau anghyfartal ar gyfer darparwyr. Yn aml, nid yw goruchwylio gwasanaethau wedi eu comisiynu wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd, yn enwedig lle caiff darpariaeth ei chyflwyno ar-lein neu yn y gymuned.

Canfuom **nad oedd disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer darpariaeth diwtora o fewn addysg heblaw yn yr ysgol yn ddigon clir**, yn enwedig o ran ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm, a oedd yn cyfrannu at amrywioldeb ym mhrofiadau dysgwyr ledled Cymru. Roedd gwahaniaethau mewn dehongli lleol wedi arwain at anghysondebau o ran amrywiaeth a manylder y dysgu sydd ar gael i bobl ifanc sy'n cael addysg y tu allan i leoliadau prif ffrwd. Canfuom hefyd fod dryswch ynghylch disgwyliadau ar gyfer nifer yr oriau o diwtora i'w darparu, gan arwain at arfer anghyson ar draws awdurdodau lleol. O ganlyniad, nid oedd hawl yn cael ei chymhwyso'n gyson, ac roedd dulliau o gynllunio, cyflwyno a sicrhau ansawdd yn amrywio.

Ansawdd y ddarpariaeth a'r cwricwlwm

Mae gormod o amrywiad yn ansawdd gwasanaethau tiwtora. Mae lleiafrif o ddarparwyr yn darparu addysgu o ansawdd uchel o fewn cwricwlwm wedi'i gynllunio'n ofalus. Yn y lleoliadau hyn, mae dysgu yn ddifyr ac yn gweddu'n dda i anghenion disgyblion. Yn aml, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran hyder, lles a dysgu academaidd.

Mewn cyferbyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cael **cwricwlwm cul**. Maent yn cael nifer gyfyngedig o oriau bob wythnos yn unig. Mae darpariaeth yn aml wedi'i chyfyngu i Saesneg a mathemateg, gyda mynediad cyfyngedig at feysydd dysgu a phrofiad (MDPh) neu lwybrau galwedigaethol eraill. O ganlyniad, mae cyfleoedd i ddisgyblion ennill cymwysterau a symud ymlaen i gyrchfannau cadarnhaol yn gyfyngedig.

Mae'r ffordd y caiff **Cwricwlwm i Gymru** ei gyflwyno yn anghyson. Er bod ychydig o ddarparwyr wedi addasu eu cwricwla yn ystyriol, nid yw darparwyr eraill wedi ymgorffori'r egwyddorion, y dibenion a'r fframwaith cynnydd yn effeithiol eto.

Canfuom fod **disgwyliadau ar gyfer disgyblion mwy abl yn rhy isel** mewn sawl gwasanaeth tiwtora. Mewn lleiafrif o achosion, roedd diffyg her ddigonol mewn deunyddiau addysgu, ac nid oeddent yn cefnogi meddwl neu ddilyniant ar lefel uwch yn gyson. O ganlyniad, nid oedd dysgwyr mwy abl bob amser yn cael gwaith a oedd yn gweddu i'w galluoedd, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ymestyn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a lles

Mae anghenion disgyblion sy'n defnyddio gwasanaethau tiwtora yn dod yn gynyddol gymhleth. Mae llawer o ddisgyblion yn profi cyfuniad o anawsterau iechyd meddwl, anghenion niwroddatblygiadol, trawma a/neu batrwm o darfu ar addysg.

Yn yr arfer gryfaf, mae darparwyr yn defnyddio gwybodaeth asesu a CDUau yn effeithiol. Maent yn addasu dulliau sy'n ystyriol o drawma ac yn gweithio'n agos gydag asiantaethau

eraill i gefnogi lles disgyblion. Fodd bynnag, **mae trefniadau ADY yn amrywiol o hyd**. Mewn rhai achosion, mae oedi wrth nodi anghenion, ac nid yw'r ddarpariaeth yn adlewyrchu disgwyliadau statudol yn gyson.

Yn aml, disgwylir i wasanaethau tiwtora fynd i'r afael ag anghenion y tu hwnt i'w cylch gwaith gwreiddiol, er enghraifft o ran diwallu ADY cymhleth. Mae hyn yn rhoi pwysau ar allu staff ac adnoddau, a gall effeithio ar ansawdd a chynaliadwyedd y ddarpariaeth.

Er bod gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i sicrhau addysg addas ar gyfer disgyblion sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) hyd at 16 oed, nid oes disgwyliad fod gwasanaethau tiwtora yn parhau y tu hwnt i'r adeg honno. O ganlyniad, **mae'n eithriadol o brin i ddarpariaeth diwtora gael ei chynnal ar ôl 16 oed i gefnogi pobl ifanc ag ADY** i ennill cymwysterau.

Yn ymarferol, mae hyn yn creu annhegwch sylweddol o fewn y system. Mae llawer o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig yn aros mewn addysg hyd nes byddant yn 19 oed, fel mater o drefn, gan elwa ar raglenni ôl-16 strwythuredig, addysgu arbenigol, addysgu therapiwtig parhaus a llwybrau a gynorthwyir at gymwysterau achrededig. Fodd bynnag, **nid yw pobl ifanc ag ADY nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol ac sy'n dibynnu ar wasanaethau tiwtora, yn profi'r un parhad o ran hawl.** Yn aml, mae darpariaeth y rhai a gynorthwyir trwy diwtora addysg heblaw yn yr ysgol yn aml yn cael ei lleihau'n sylweddol neu'i diweddu'n sydyn pan fyddant yn 16 oed, sy'n cyfyngu ar eu cyfle i ddilyn cymwysterau a manteisio ar gymorth arbenigol parhaus ar adeg dyngedfennol yn eu haddysg.

Llais y disgybl ac ymgysylltu

Pan mae arfer ar ei chryfaf, caiff disgyblion gyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar eu dysgu. Maent yn helpu llunio amserlenni, gweithgareddau dysgu a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynyddu ymgysylltiad a chymhelliant.

Mewn llawer o wasanaethau, fodd bynnag, **mae llais y disgybl yn gyfyngedig**. Mae disgyblion mewn darpariaeth ar-lein neu ddarpariaeth gymunedol yn dweud yn aml nad ydynt yn cael rhyw lawer o ddylanwad dros beth maent yn ei ddysgu, na sut. Mae cyfleoedd i gasglu barn disgyblion, a gweithredu arni, yn anghyson. Lle mae arfer ar ei chryfaf, caiff disgyblion gyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar eu dysgu. Maent yn helpu llunio amserlenni, gweithgareddau dysgu a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynyddu ymgysylltiad, cymhelliant ac ymdeimlad cryfach o berchnogaeth dros eu haddysg.

Mae llawer o ddisgyblion yn dweud nad yw eu rhaglenni yn eang a chytbwys. Maent yn disgrifio ffocws cryf ar ystod gul o bynciau, sy'n aml yn blaenoriaethu cymwysterau craidd, gyda mynediad cyfyngedig at y meysydd dysgu a phrofiad ehangach o fewn Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, roedd y disgyblion hyn yn teimlo nad ydynt yn elwa ar agweddau creadigol, mynegiannol na chorfforol ar ddysgu yr oedd eu cyfoedion mewn lleoliadau ysgol yn cael profiad ohonynt, fel mater o drefn.

Rhieni, gofalwyr a chyfathrebu

Mae rhieni a gofalwyr yn aml yn gwerthfawrogi ymroddiad ac ymrwymiad tiwtoriaid unigol. Maent yn cydnabod y perthnasoedd cadarnhaol sy'n cael eu meithrin â disgyblion.

Fodd bynnag, mae llawer o deuluoedd yn disgrifio system nad oes iddi dryloywder a chysondeb. Yn aml, mae mynediad at ddarpariaeth yn dibynnu ar drefniadau lleol yn hytrach na disgrifiad clir o sut mae'n diwallu anghenion eu plentyn. Mae cyfathrebu gwan, oedi mewn darpariaeth, oriau cyfyngedig ac ansicrwydd ynghylch dilyniant yn bryderon cyffredin lle mae goruchwyliaeth yn llai effeithiol.

Monitro, diogelu a phresenoldeb

Mae trefniadau monitro a sicrhau ansawdd yn amrywio'n eang. Mae gan leiafrif o awdurdodau lleol systemau cadarn ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthuso ansawdd yr addysgu, y cynnig cwricwlwm a chynnydd disgyblion yn rheolaidd.

Mewn llawer o awdurdodau, mae monitro yn **anghyson a thameidiog**. Mae'n aml yn canolbwyntio ar gydymffurfio â threfniadau cytûn yn hytrach nag ansawdd ac effaith dysgu. Mae trefniadau diogelu a monitro presenoldeb yn gadarn, ar y cyfan, ond mae sicrwydd yn wannach ar gyfer darparwyr wedi eu comisiynu a darpariaeth ar-lein. Mewn nifer fach o achosion, nid yw gweithgarwch dilynol yn sgil diffyg presenoldeb yn digwydd yn ddigon prydlon.

Pontio a dilyniant

Mae trefniadau ar gyfer pontio a dilyniant yn anghyfartal. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae disgyblion yn elwa ar gynllunio cynnar, arweiniad effeithiol ar yrfaoedd a chymorth amlasiantaethol cydlynus. Mae'r disgyblion hyn yn cyflawni deilliannau cryf yn y sector ôl-16.

Mewn llawer o ardaloedd, mae cynllunio pontio yn ymatebol. Mae cyfrifoldebau yn aneglur a'r cydlynu rhwng gwasanaethau yn gyfyngedig. Gall hyn arwain at fylchau mewn darpariaeth ac ansicrwydd i ddisgyblion ar adegau pontio allweddol.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Nid yw'r ddarpariaeth tiwtora cyfrwng Cymraeg a dwyieithog **wedi'i datblygu'n ddigonol**. Mae ychydig iawn o awdurdodau wedi sefydlu llwybrau cydlynus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dibynnu ar argaeledd tiwtoriaid unigol sy'n siarad Cymraeg yn hytrach na darpariaeth gynlluniedig. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfle i gael addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11.

Pam mae'n cyfri

Mae gwasanaethau tiwtora yn cefnogi rhai o'r disgyblion mwyaf bregus yng Nghymru. I'r disgyblion hyn, mae addysg yn darparu strwythur, sefydlogrwydd a llwybr at ddeilliannau cadarnhaol yn y dyfodol.

Pan mae ansawdd ac argaeledd darpariaeth yn amrywio'n eang, mae profiadau disgyblion yn dibynnu gormod ar ble maent yn byw. Gall hyn gyfyngu ar fynediad at gwricwlwm eang, cyfyngu ar gymwysterau a lleihau cyfleoedd ar gyfer dilyniant.

Mae cryfhau arweinyddiaeth strategol, gwella cysondeb a sicrhau monitro trylwyr yn hanfodol. Gall disgwyliadau cliriach, cydlynu gwell a darpariaeth decach helpu sicrhau bod

gwasanaethau tiwtora yn diwallu anghenion disgyblion a'u cefnogi i symud yn hyderus at eu camau nesaf.

Mae darpariaeth diwtora effeithiol a theg yn gyflawnadwy. Yr her yw datblygu dealltwriaeth ar y cyd o *sut beth yw da* a sicrhau bod arfer gref yn dod yn gyson ac ar gael i bob un o'r disgyblion, ni waeth ble maent yn byw.

Cyflwyniad

Mae ein gwaith ar gyfer yr adroddiad thematig hwn yn gwerthuso'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora i ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ledled Cymru, ac ansawdd y gwersi hynny. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth helaeth o wasanaethau tiwtora, yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), ysgolion prif ffrwd sy'n darparu modelau hybrid, darpariaeth yn y gymuned a darparwyr wedi eu comisiynu. Mae'r dadansoddiad yn adlewyrchu arfer awdurdodau lleol, arweinwyr, tiwtoriaid, staff ysgolion a darparwyr allanol, yn ogystal â phrofiadau bywyd disgyblion a'u teuluoedd. Rydym wedi cyfosod tystiolaeth uniongyrchol, arsylwadau uniongyrchol, ymgysylltu â disgyblion a chraffu ar ddogfennau. Mae manylion am sut cafodd tystiolaeth ei chasglu a'i dadansoddi, yn cynnwys cwmpas a chyfyngiadau'r adolygiad, wedi eu hamlinellu yn yr adran dulliau a sail y dystiolaeth (tudalen 46).

Yn ystod cyfnod casglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, canfuom nad oedd set ddata genedlaethol gynhwysfawr yn cofnodi nifer neu nodweddion disgyblion sy'n cael gwersi tiwtora trwy AHY. Nid yw'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), sef y prif gasgliad data statudol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gasglu gwybodaeth am ddysgwyr mewn ysgolion, yn casglu data fel mater o drefn ar ddisgyblion sy'n cael addysg o fewn gwasanaethau tiwtora. Mae hyn yn cyfyngu ar oruchwyliaeth genedlaethol a'r gallu i ddadansoddi tueddiadau, nodweddion neu ddeilliannau ar gyfer y grŵp hwn. Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael i ni yn ystod yr adolygiad hwn, nodom fod tua 900 o ddisgyblion yn defnyddio gwasanaethau tiwtora ledled Cymru ar yr adeg honno. Fodd bynnag, heb gasgliad data cenedlaethol systematig, mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod gwaith maes yn hytrach na chyfanswm cenedlaethol pendant.

Mae tystiolaeth o'n gwaith maes ac o'n gweithgarwch arolygu yn nodi bod y dirwedd AHY yn parhau i esblygu wrth ymateb i lefelau cynyddol o orbryder, anghenion iechyd meddwl, heriau ymddygiadol, tarfu ar bresenoldeb ac amgylchiadau bywyd cymhleth ymhlith disgyblion. Mae gwasanaethau tiwtora bellach yn cefnogi ystod eang o ddisgyblion y mae eu hanghenion yn amrywio'n eang o ran natur, dwysedd a hyd. O'r herwydd, ni ellir deall effeithiolrwydd tiwtora ar wahân i strategaeth awdurdodau lleol, cydweithio amlasiantaethol, cynllunio'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, trefniadau sicrhau ansawdd a chontinwwm ehangach llwybrau AHY.

Mae gwersi tiwtora a gyflwynir trwy AHY yn chwarae rôl hanfodol mewn cefnogi dysgwyr na ellir diwallu eu hanghenion o fewn darpariaeth brif ffrwd, yn aml mewn cyfnodau o

fregusrwydd dwysach. Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n nodi bod absenoldeb disgwyliadau cenedlaethol digon manwl wedi arwain at amrywiad sylweddol o ran sut caiff hawl i'r cwricwlwm ei dehongli a'i chyflawni. Yn benodol, mae anghysondeb o ran sut caiff ehangder, cydbwysedd a dilyniant eu hadlewyrchu mewn rhaglenni tiwtora, ochr yn ochr â gwahanol ddehongliadau o oriau tiwtora disgwyliedig. Mae'r diffyg eglurder hwn wedi cyfrannu at arfer anghyfartal ledled Cymru a gwahaniaethau ym mynediad dysgwyr at brofiad dysgu sy'n addas o eang a chytbwys.

Mae tystiolaeth o'r adolygiad thematig hwn yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yr oedd angen gwersi tiwtora arnynt yn profi rhwystrau sylweddol rhag dysgu, yn cynnwys iechyd meddwl gwael, gorbryder, tarfu ar addysg, perthnasoedd toredig ag addysg, ac mewn rhai achosion, profiadau niweidiol ehangach. Yn y cyd-destun hwn, roedd gwasanaethau tiwtora yn aml yn darparu amgylchedd amddiffynnol a sefydlog a oedd yn galluogi disgyblion i deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu deall a'u cefnogi mewn cyfnod o fregusrwydd dwysach.

Mae ein tystiolaeth yn dangos, trwy gynnig darpariaeth hyblyg ac unigoledig a pherthnasoedd cyson ag oedolion ymddiriedus, bod gwasanaethau tiwtora yn helpu disgyblion i fagu hyder o'r newydd, rheoleiddio emosiynau ac adfer ymdeimlad o berthyn. Mae'r rôl hon sy'n canolbwyntio ar les yn rhan dyngedfennol o'r rhesymeg ar gyfer gwasanaethau tiwtora o fewn trefniadau AHY ac yn sail i allu disgyblion i

ailymgysylltu â dysgu, symud ymlaen ar hyd llwybrau priodol, a dychwelyd i addysg brif ffrwd, lle bo modd.

Mae'r adolygiad hwn yn dilyn adolygiad thematig Estyn, Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023.

Ysgrifennwyd yr adroddiad thematig hwn i ymateb i gais am gyngor gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn y llythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2025/2026. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o drefniadau awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau tiwtora ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY, yn cynnwys gwerthuso systemau ar gyfer diogelu a sicrhau presenoldeb. Mae'n gwerthuso profiadau disgyblion o'r cwricwlwm, yn cynnwys eu mynediad at gynnig cwricwlwm amser llawn. Mae hefyd yn ystyried pa mor dda mae awdurdodau lleol yn gwerthuso a gwella ansawdd ac effaith y ddarpariaeth ac adroddiadau ar bontio rhwng gwasanaethau tiwtora ac ysgolion neu mewn darpariaeth ôl-16. Rydym yn amlygu enghreifftiau o arfer effeithiol mewn awdurdodau lleol a darparwyr, lle mae ansawdd y cynnig cwricwlwm yn cefnogi anghenion disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu cynorthwyo'n effeithiol wrth iddynt ddychwelyd i addysg brif ffrwd, neu symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio ystod o dystiolaeth, yn cynnwys ymatebion i arolwg gan awdurdodau lleol, cyfarfodydd â swyddogion awdurdodau lleol, ymweliadau â darparwyr tiwtora ac ymgysylltu â disgyblion a rhieni neu ofalwyr.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, arweinwyr a staff ysgolion ac UCDau a darparwyr gwasanaethau tiwtora, awdurdodau lleol, a gwasanaethau gwella ysgolion.

Bydd yr adroddiad yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol ac yn llywio gwaith Grŵp Cynghori Llywodraeth Cymru ar AHY i gryfhau'r canllawiau ar y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol, a chefnogi a gwella gwaith awdurdodau lleol a darparwyr, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau tiwtora ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Gallai fod o ddiddordeb i rieni a gofalwyr disgyblion sy'n defnyddio gwasanaethau tiwtora, hefyd.

Nid yw'r adolygiad thematig yn eirioli un model ffafriedig ar gyfer darparu gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Trwy gydol ein gwaith maes a'n dadansoddi, arsylwom amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys tiwtora wyneb yn wyneb, darpariaeth yn gyfan gwbl ar-lein a modelau hybrid sy'n cyfuno dysgu wyneb yn wyneb

a dysgu rhithwir. Dangosodd pob model fod cryfderau a chyfyngiadau, yn dibynnu ar gyd-destun a gweithredu. Mae ein gwerthusiad o'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r un dull darparu yn well, yn ei hanfod. Yn hytrach, y prif ffactor mewn effeithiolrwydd yw'r graddau y caiff darpariaeth ei chynllunio'n ofalus, y sicrheir ei hansawdd ac y mae'n ymatebol i anghenion, amgylchiadau a dyheadau unigol y dysgwr. Felly, mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ansawdd, tegwch ac effaith y ddarpariaeth, ni waeth p'un a yw'n cael ei chyflwyno wyneb yn wyneb, ar-lein neu drwy ddull cyfunol.

Yn ychwanegol, bwriad y 'cipluniau' sydd wedi eu cynnwys trwy gydol yr adroddiad yw dangos enghreifftiau o arfer effeithiol a arsylwyd, yn enwedig awdurdodau lleol neu ddarparwyr. Maent wedi eu bwriadu i gefnogi trafodaethau am ddysgu proffesiynol a sectorau, yn hytrach na phennu un model darparu. Rydym yn cydnabod bod cyd-destunau lleol yn amrywio a bod darpariaeth yn cael ei ffurfio gan wahanol anghenion disgyblion, daearyddiaeth, capasiti a threfniadau comisiynu. O ganlyniad, ni ddylid dehongli'r enghreifftiau hyn fel pe baent yn awgrymu y dylai pob darparwr ailadrodd yr arfer a ddisgrifir, ond fel astudiaethau achos esboniadol o ddulliau a oedd yn effeithiol yn eu hamgylchiadau penodol.

Cefndir

Mae'r adroddiad thematig hwn yn adeiladu ar y dogfennau allweddol canlynol, sydd wedi darparu sail dystiolaeth ddefnyddiol:

- Adolygiad thematig Estyn, *Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)* Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023
- Llywodraeth Cymru (2019a) *Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) Fframwaith Gweithredu.* Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY): fframwaith gweithredu | LLYW.CYMRU,
- Hwb (2024) Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Ar gael yn: Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) - Hwb Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) - Hwb (Darllenwyd: 17 Mehefin 2025)
- Comisiynydd Plant Cymru (2023), *Adroddiad sbotolau ar y ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru* Adroddiad Addysg mewn Gofal Iechyd
- Llywodraeth Cymru (Mawrth 2016), Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf
- Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol WG42005 Canllawiau Llywodraeth Cymru, Dogfen ganllawiau rhif: 269/2021 Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2021

Gellir gweld rhestr lawn o gyfeiriadau ar dudalen 57 y ddogfen hon.

Beth yw AHY?

Mae Adran 19(1) Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 47 Deddf Addysg, 1997) Deddf Addysg 1996 yn amodi'r canlynol:

> *Rhaid i bob awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ar gyfer y plant hynny o oedran ysgol gorfodol sydd, oherwydd salwch, cael eu gwahardd o'r ysgol neu fel arall, ddim efallai'n derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer.*

Mae addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn cyfeirio at drefniadau addysg a wnaed gan awdurdod lleol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol sydd, am amrywiaeth o resymau, yn methu mynychu ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Yng Nghymru, diffinnir AHY mewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol ac mae'n cynnwys darpariaethau fel unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), addysg ysbyty, tiwtora gartref, dysgu ar-lein, a gwasanaethau tiwtora wedi eu comisiynu. Mae awdurdodau lleol yn parhau i fod yn

gyfrifol am sicrhau bod disgyblion sy'n cael addysg trwy ddarpariaeth AHY yn derbyn addysg addas, eang a chytbwys (oni bai bod anghenion meddygol neu anghenion eraill yn atal hyn) a bod darpariaeth yn bodloni eu hawliau lles, diogelu a chwricwlwm, gan gynnwys o dan Gwricwlwm i Gymru. Mae Atodiad 1 (tudalen 59) yn crynhoi'r canllawiau o amgylch AHY a darparu tiwtora unigol.

Pam mae disgyblion sydd mewn darpariaeth AHY yn derbyn gwasanaethau tiwtora?

Mae disgyblion sy'n cael AHY yn aml yn cael cynnig gwasanaethau tiwtora oherwydd na ellir diwallu eu hanghenion yn ddiogel nac yn effeithiol mewn lleoliad ysgol brif ffrwd. Mae rhesymau cyffredin yn cynnwys gorbryder, trawma, anghenion iechyd meddwl, cyflyrau meddygol, neu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mewn llawer o achosion, defnyddir tiwtora pan fydd disgyblion yn aros am le mewn ysgol arbenigol, pan na fydd darpariaeth arbenigol leol ar gael, ar ôl gwaharddiadau parhaol, neu pan mae angen dull graddol neu hyblyg i'w cael i ymgysylltu o'r newydd â dysgu. Yn nodweddiadol, mae gwasanaethau tiwtora yn darparu addysgu grŵp bach neu un i un trwy ddysgu personoledig, yn aml trwy ddulliau sy'n ystyriol o drawma. Mae hyn yn helpu disgyblion i barhau i ymgysylltu â dysgu ac yn cefnogi ailintegreiddio, dilyniant i lwybrau ôl-16, neu ddarpariaethau tymor hir addas eraill.

Mae *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd* (Llywodraeth Cymru, 2017) WG31248 yn esbonio dyletswyddau awdurdodau lleol i sicrhau addysg addas ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn gallu mynychu lleoliadau prif ffrwd oherwydd anghenion gofal iechyd, p'un a ydynt yn cael addysg gartref, mewn ysbyty neu drwy ddarpariaeth AHY. Dylai cymorth addysgol gael ei nodi a'i ddarparu'n brydlon, bod yn hyblyg i newid mewn amgylchiadau iechyd, a sicrhau parhad dysgu, yn cynnwys yn ystod arosiadau yn yr ysbyty. Er bod ysgolion fel arfer yn cefnogi absenoldebau byr, rhaid i awdurdodau lleol drefnu darpariaeth am absenoldebau hirach neu a ragwelir, a gefnogir gan bolisïau clir, cydlynu rhwng gwasanaethau, a chyswllt agos â theuluoedd ac addysgwyr. Disgwylir cefnogaeth barhaus ar gyfer dysgwyr 16–18 oed hefyd, lle mae angen iddynt, oherwydd salwch, gwblhau cymwysterau o hyd.

Yng Nghymru, mae gan ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol hawl i gael addysg amser llawn addas, ac mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau darpariaeth briodol o'r chweched diwrnod ysgol ar ôl cael eu gwahardd. Yn aml, cyflenwir y ddarpariaeth hon trwy wasanaethau tiwtora, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), neu leoliadau addysg amgen eraill, a rhaid eu teilwra i oedran, gallu a thueddiadau'r dysgwr, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo. O dan *Ddeddf Addysg 1996* a chanllawiau dilynol Llywodraeth Cymru Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod disgyblion sydd wedi eu gwahardd yn derbyn addysg effeithlon a chymorth priodol, gyda ffocws ar ailintegreiddio lle bo modd, neu ddilyniant i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Ble caiff gwasanaethau tiwtora eu cynnal

Caiff gwasanaethau tiwtora ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY eu darparu trwy ystod o ddarparwyr a darpariaeth, wedi eu dewis i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau unigol orau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cartrefi disgyblion, yn enwedig lle mae gorbryder, anghenion meddygol, neu ystyriaethau diogelu yn eu hatal rhag mynychu lleoliad.
- Canolfannau neu hybiau tiwtora awdurdodau lleol, a allai fod yn lleoliadau ar eu pen eu hunain neu rai sy'n gysylltiedig ag UCDau neu ddarparwyr preifat.
- Lleoliadau cymunedol, fel llyfrgelloedd, canolfannau ieuenctid, neu adeiladau cymunedol, sy'n cynnig amgylcheddau dysgu niwtral a llai ffurfiol.
- Ysbytai neu ddarparwyr meddygol, ar gyfer disgyblion sy'n derbyn triniaeth barhaus.
- Amgylcheddau ar-lein neu gyfunol, sy'n cyfuno addysgu byw rhithwir gyda chymorth wyneb yn wyneb, lle bo'n briodol.

- Ar safleoedd ysgolion, yn aml fel rhan o gynllun ailintegreiddio graddol neu drefniant cofrestriad deuol.

Caiff y ddarpariaeth ei chytuno yn nodweddiadol gan yr awdurdod lleol, ei llywio gan asesiadau risg ac ystyriaethau lles, a CDU y disgybl, lle bo'n berthnasol.

Sut caiff gwasanaethau tiwtora eu cynnal

Mae gwasanaethau tiwtora wedi eu cynllunio i fod yn hyblyg, yn bersonoledig, wedi eu cyfyngu gan amser ac yn ymatebol i anghenion disgyblion. Maent fel arfer yn cynnwys:

- Addysgu un i un neu mewn grŵp bach iawn, sy'n caniatáu ar gyfer cymorth teilwredig a datblygu perthnasoedd gwaith cryf â staff.
- Amserlenni hyblyg a chynlluniau cymorth bugeiliol (CCBau), a allai ddechrau â llai o oriau a chynnydd wrth i ymgysylltiad a pharodrwydd disgyblion wella.
- Dulliau perthynol, sy'n ystyriol o drawma, sy'n blaenoriaethu rheoleiddio emosiynol, ymddiriedaeth a lles ochr yn ochr â dysgu.
- Cwricwla wedi'u haddasu, gyda ffocws ar iechyd a lles, sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru, ac achrediad neu gymwysterau, lle bo'n briodol.
- Gweithio amlasiantaethol agos, yn cynnwys addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a theuluoedd.
- Adolygu a monitro rheolaidd gan yr awdurdod lleol i sicrhau addasrwydd, cynnydd a diogelu.

At ei gilydd, mae gwasanaethau tiwtora yn gweithredu fel mesur amddiffynnol a phont, yn cynnal parhad addysgol ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol tra'n cefnogi deilliannau tymor hwy fel ailintegreiddio i ysgolion, dilyniant i addysg ôl-16, neu lwybrau personoledig eraill.

Mae'r adroddiad thematig hwn yn canolbwyntio ar weithredu agweddau ar y canllawiau statudol ac anstatudol presennol yng Nghymru ar gyfer disgyblion sydd angen gwasanaethau tiwtora addysgol. Rydym wedi ystyried y trefniadau ar gyfer darparu. Rydym hefyd wedi ystyried pa mor dda yr oedd awdurdodau lleol yn cyflwyno, yn monitro ac yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a gynigir a pha mor dda maent yn cefnogi disgyblion i ddychwelyd i addysg brif ffrwd, lle bo'n briodol.

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am ystod y gwasanaethau tiwtora AHY ar gyfer disgyblion o fewn awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys UCDau a'r trydydd sector ehangach neu sefydliadau gwirfoddol sydd wedi eu comisiynu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys o fewn ei gwmpas, ddarpariaeth wedi ei chomisiynu yn uniongyrchol gan ysgolion i gynnig trefniadau cwricwlwm y maent yn eu hariannu neu y

mae ganddynt gyfrifoldeb i sicrhau eu hansawdd neu'r sector ysgolion annibynnol. Nid yw'n cynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref (ADdC).

Gofynion cwricwlwm ar gyfer darparwyr AHY

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan bod rhaid i awdurdodau lleol, pwyllgorau rheoli ac athrawon sydd â gofal am UCD sicrhau ar y cyd fod y cwricwlwm yn yr UCD yn bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru Cwricwlwm i Gymru - Hwb.

Rhaid i gwricwlwm:

- *alluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben*
- *darparu ar gyfer dilyniant priodol i ddysgwyr*
- *cael ei lywio gan ddatblygu a chynnal dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant, yn unol â Chyfarwyddyd y Gweinidog o dan adran 57 y Ddeddf*
- *bod yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a thueddiadau*
- *bod yn eang a chytbwys, cyhyd ag y bo'n briodol ar gyfer dysgwyr*

Rhaid i gwricwlwm drefnu darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu sydd:

- *yn cwmpasu'r maes iechyd a lles*
- *yn cwmpasu'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol (y mae'n rhaid iddo fod yn ddatblygiadol briodol ar gyfer dysgwyr)*
- *yn datblygu'r medrau trawsgwricwlaidd gorfodol*

Rhaid i gwricwlwm gynnig darpariaeth hefyd, os yw'n rhesymol bosibl a phriodol gwneud hynny, ar gyfer dysgu ac addysgu:

- *yn y Meysydd eraill*
- *yn yr elfennau gorfodol eraill*

Mae data cenedlaethol[1] yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n derbyn darpariaeth AHY yn parhau i godi. Yn 2024/25, roedd 3,014 o ddisgyblion yn cael rhyw fath o ddarpariaeth AHY, sydd gyfwerth â 6.5 disgybl i bob 1,000. O'r rhain, roedd 2,684 o ddisgyblion yn cael addysg y tu allan i'r ysgol, yn bennaf, sy'n cyfrif am bron i naw o bob deg disgybl sy'n cael AHY. Mae cyfran y disgyblion sy'n cael addysg y tu allan i'r ysgol yn bennaf wedi mwy na dyblu ers dechrau casglu data cenedlaethol yn 2009/10.

Mae amrywiad nodedig yng nghyfran y disgyblion sy'n cael AHY rhwng awdurdodau lleol, ac mae cyfraddau ychydig o awdurdodau fwy na dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol.

[1] Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2024 i Awst 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU

Ceir cynrychiolaeth anghymesur o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae cyfraddau wedi codi'n sydyn dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi eu gor-gynrychioli o gymharu â'r boblogaeth ysgol gyfan.

UCDau yw'r darparwr mwyaf o ran darpariaeth AHY o hyd, wedi'i ddilyn gan ysgolion annibynnol a gwasanaethau tiwtora. Fodd bynnag, nid yw data cenedlaethol yn nodi faint o ddisgyblion unigol sy'n derbyn gwasanaethau tiwtora, sy'n cyfyngu ar ddealltwriaeth o raddfa ac effaith lawn y ddarpariaeth hon. Ar hyn o bryd, mae tystiolaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn dangos bod **ychydig dros 900 o ddisgyblion wedi eu cofrestru mewn gwasanaethau tiwtora yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.**

O ystyried graddfa gynyddol AHY, bregusrwydd llawer o ddisgyblion sy'n cael eu tiwtora, a'r canfyddiadau o waith thematig cynharach Estyn, mae rhesymeg gref ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r graddau y mae gwasanaethau tiwtora yn bodloni gofynion statudol, yn sicrhau profiadau cwricwlwm teg, ac yn cefnogi dilyniant ac ailintegreiddio disgyblion, lle bo'n briodol.

Mae ffocws yr adroddiad hwn ar y cynnig cwricwlwm ar draws pob oedran ar gyfer disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora o gymharu â'u cyfoedion mewn ysgolion prif ffrwd ac UCDau, a thegwch y profiadau hyn ar draws pob awdurdod lleol. Mae prosesau awdurdodau lleol i fonitro ansawdd ac effaith y cynnig cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n mynychu gwasanaethau tiwtora wedi cael eu gwerthuso, hefyd. Lle nodwyd arfer effeithiol, mae enghreifftiau o hyn wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad. Yn rhan o'r dystiolaeth, cynhaliom adolygiad o'r trefniadau i gefnogi disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora sy'n dychwelyd i addysg brif ffrwd, pontio o ddarpariaeth gynradd i ddarpariaeth uwchradd brif ffrwd a phontio i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

O fewn cwmpas yr arolwg thematig hwn, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi eu cynnwys, ynghyd â sampl o ddarparwyr, yn cynnwys ysgolion, UCDau a darparwyr preifat. Roedd hyn hefyd yn cynnwys lle roedd y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.

Argymhellion

Argymhellion i Lywodraeth Cymru:

1. Egluro disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer darpariaeth diwtora o fewn addysg heblaw yn yr ysgol, yn cynnwys tegwch, ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm, i leihau amrywioldeb ledled Cymru.

2. Cryfhau disgwyliadau strategol ar gyfer tiwtora cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau alinio â Cymraeg 2050 a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau).

3. Gwella casglu data yn genedlaethol am ddarpariaeth diwtora, yn cynnwys nifer y disgyblion sy'n manteisio ar diwtora bob blwyddyn, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, disgyblion ag ADY, cymwysterau a chyrchfannau.

Argymhellion i awdurdodau lleol:

4. Cryfhau goruchwyliaeth strategol a llywodraethu gwasanaethau tiwtora o fewn y continwwm addysg heblaw yn yr ysgol.

5. Sicrhau darpariaeth deg ac uchelgeisiol o ran y cwricwlwm, yn cynnwys mynediad at achredu a llwybrau galwedigaethol.

6. Cymhwyso dyletswyddau ADY yn gyson ar gyfer disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora, hyd at 19 oed, gan ddefnyddio CDUau i lunio darpariaeth a chynllunio pontio[2].

7. Cynllunio gwasanaethau tiwtora cyfrwng Cymraeg yn strategol.

8. Cryfhau sicrhau ansawdd a chynllunio pontio ar draws pob llwybr tiwtora.

Argymhellion i ddarparwyr:

9. Ar y cyd â'r awdurdod lleol, alinio darpariaeth diwtora â Chwricwlwm i Gymru, gan gefnogi dilyniant, lles a medrau disgyblion.

10. Mynd ati i ddefnyddio CDUau i gynllunio ac adolygu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY.

[2] Nid oes gofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol ddarparu cymorth ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol y tu hwnt i 16 oed. Fodd bynnag, mae pob dyletswydd berthnasol mewn cysylltiad â disgyblion ag ADY yn berthnasol.

11. Cefnogi parhad a dilyniant cyfrwng Cymraeg, lle bo'n briodol.

12. Cyfathrebu'n effeithiol â theuluoedd, awdurdodau lleol ac ysgolion, gan sicrhau trefniadau pontio effeithiol i ddychwelyd i addysg brif ffrwd neu leoliadau ôl-16.

Pennod 1: Trefniadau awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion addysgol disgyblion sydd angen tiwtora unigol

Rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau addysg a chefnogaeth ehangach ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY ac mewn gwasanaethau tiwtora. Mae'r dystiolaeth o'r adolygiad thematig hwn yn dangos, i lawer o ddisgyblion sydd angen gwasanaethau tiwtora, fod awdurdodau lleol yn gweithredu fel y corff cydlynu canolog sy'n dal ynghyd drefniadau addysgol cymhleth sy'n aml yn fregus. Yn aml, mae'n ofynnol iddynt ymateb i angen dwys, yn cynnwys anawsterau iechyd meddwl sylweddol, tarfu ar addysg, gwaharddiadau, absenoldeb meddygol ac amgylchiadau teuluol cymhleth.

Yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd awdurdodau lleol yn cyfuno goruchwyliaeth statudol gydag arfer berthynol gref, gan ddod ag ysgolion, UCDau, gwasanaethau iechyd, darparwyr gofal cymdeithasol a darparwyr wedi eu comisiynu at ei gilydd i greu pecynnau cymorth personoledig ac ymatebol. Mae'r gwaith hwn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i addysg yn unig ac yn cynnwys diogelu, lles, eirioli ar gyfer disgyblion a theuluoedd, a datrys problemau yn gynaledig mewn sefyllfaoedd lle mae disgyblion mewn perygl o ymddieithrio yn gyfan gwbl. Hyd yn oed lle mae systemau dan bwysau, roedd swyddogion awdurdodau lleol yn aml yn dangos lefelau uchel o ymrwymiad, crebwyll proffesiynol a diben moesol. Mae eu rôl yn dyngedfennol o ran sicrhau bod disgyblion bregus yn parhau i fod yn weladwy o fewn y system, yn parhau i gael addysg mewn rhyw ffurf, ac yn cael eu cefnogi i sefydlogi, ailymgysylltu a gwneud cynnydd pan nad yw darpariaeth yn yr ysgol yn ddigonol.

Roedd nifer fach o awdurdodau lleol yn ein sampl wedi lleihau dibyniaeth ar diwtora allanol trwy gryfhau ymyrraeth gynnar, cefnogaeth dan arweiniad ysgolion a gweithio mewn partneriaeth.

Model hybrid ar y cyd awdurdod lleol ac ysgolion sy'n lleihau dibyniaeth ar diwtora allanol trwy ymyrraeth gynnar a gwaith partneriaeth cryf (Ynys Môn)

Mae awdurdod lleol Ynys Môn yn gweithredu model hybrid hynod effeithiol sy'n blaenoriaethu ymyrraeth a chefnogaeth dan arweiniad ysgolion. O ganlyniad i hyn, ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sydd angen gwasanaethau tiwtora cwbl allanol.

Mae gwaith partneriaeth cryf rhwng yr awdurdod lleol ac ysgolion yn galluogi anghenion sy'n dod i'r amlwg i gael eu nodi'n gynnar, ac eir i'r afael â nhw trwy drefniadau hyblyg

mewn ysgolion, ymyriadau targedig a chymorth bugeiliol. Mae ysgolion yn chwarae rôl ganolog mewn cynnal ymgysylltiad disgyblion â dysgu, yn aml trwy amserlenni wedi eu haddasu neu gymorth ychwanegol tymor byr, sy'n lleihau'r angen i dynnu disgyblion o addysg brif ffrwd.

Lle mae angen tiwtora allanol, caiff ei gomisiynu gan yr awdurdod lleol, ei ddefnyddio'n bwrpasol ac am gyfnod cyfyngedig, yn bennaf mewn amgylchiadau eithriadol fel gwaharddiadau parhaol, anghenion iechyd sylweddol neu oedi o ran sicrhau lleoliad addas.

Caiff penderfyniadau eu goruchwylio trwy brosesau cymedroli cadarn, sy'n sicrhau cysondeb, tegwch a disgwyliadau clir ar gyfer ailintegreiddio.

Mae'r dull hybrid hwn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i aros mewn cysylltiad â chymunedau eu hysgol, yn cefnogi presenoldeb rheolaidd ac yn hyrwyddo lles cadarnhaol. Mae hefyd yn sicrhau bod tiwtora yn parhau i fod yn fesur dros dro yn hytrach na lleoliad tymor hir, sy'n canolbwyntio ar ailymgysylltu a dilyniant. O ganlyniad, mae deilliannau ailintegreiddio yn gryf ac fe gaiff dibyniaeth ar diwtora allanol ei lleihau i'r eithaf, sy'n dangos defnydd effeithiol yr awdurdod o adnoddau ac ymrwymiad i arfer gynhwysol.

Mae'r enghraifft hon yn dangos sut gall ymatebion amserol, yn canolbwyntio ar ysgolion, wedi'u cefnogi gan diwtora, atal uwchgyfeirio, cynnal cynhwysiant disgyblion mewn addysg brif ffrwd a sicrhau bod tiwtora yn cael ei ddefnyddio dim ond lle mae'n ychwanegu gwerth clir.

Gofynion statudol ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY ac angen gwasanaethau tiwtora

Mae gan awdurdodau lleol rôl statudol i sicrhau bod disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn cael profiad addysgol cydlynus, teg ac o ansawdd uchel.

Mae Adran 19(1) Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 47 Deddf Addysg, 1997) yn gwneud amod:

> *Rhaid i bob awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas yn yr ysgol neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ar gyfer y plant hynny o oedran ysgol gorfodol sydd,* ***oherwydd salwch****, cael eu gwahardd o'r ysgol neu fel arall, ddim efallai'n derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer.*

Er bod bron pob un o'r awdurdodau yr ymwelom â nhw neu y siaradom â nhw wedi mynegi ymrwymiad i gefnogi disgyblion sy'n methu mynychu ysgol brif ffrwd, roedd eglurder, cydlyniant ac effeithiolrwydd goruchwyliaeth strategol yn amrywio'n eang. Yn yr awdurdodau cryfaf, disgrifiodd swyddogion weledigaeth unedig ar gyfer tiwtora fel ymyrraeth dros dro, wedi'i strwythuro'n ofalus sy'n cefnogi disgyblion i ailymgysylltu ag addysg a symud ymlaen yn hyderus ar hyd llwybrau priodol. Mewn cyferbyniad, nid oedd lleiafrif o awdurdodau wedi sefydlu fframwaith strategol cydlynol eto, gan arwain at ddarpariaeth dameidiog a disgwyliadau anghyson. Dangosodd llawer o'r darparwyr yr ymwelom â nhw fel rhan o'r astudiaeth thematig hon arfer effeithiol mewn partneriaeth a chydlynu amlasiantaethol, a dangos sut gall dull ataliol strategol o fewn y system UCD leihau'r angen am diwtora yn sylweddol.

Atal AHY a lleihau dibyniaeth ar diwtora trwy lwybrau yn canolbwyntio ar berthnasoedd a llwybrau galwedigaethol (UCD Wrecsam)

Mae UCD Wrecsam yn gweithio gyda disgyblion sydd wedi profi heriau sylweddol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol; anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl; tarfu ar berthnasoedd; absenoldeb parhaus ac amgylchiadau teuluol cymhleth. Mae'r UCD yn llawn ac yn ehangu i fodloni'r galw am leoedd arbenigol. I ymateb i'r cynnydd yn y niferoedd sy'n cael AHY ac effaith gyfyngedig gan fodelau tiwtora traddodiadol, trwy weithio'n agos â'r awdurdod lleol, mae'r UCD wedi arwain datblygiad llwybrau dysgu ataliol, personoledig a galwedigaethol. Nod y llwybrau hyn yw ailymgysylltu â disgyblion yn gynnar, lleihau'r angen am wasanaethau tiwtora a sicrhau cyfnodau pontio cryf i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae arweinwyr yn gosod lles ac arfer berthynol wrth wraidd y cwricwlwm. Mae staff yn defnyddio asesiadau manwl a gwybodaeth am ADY, yn cynnwys cynlluniau dysgu unigol (CDUau) a dogfennau darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), i gyd-lunio rhaglenni pwrpasol sy'n cyfuno dysgu academaidd, llwybrau galwedigaethol, therapi, profiadau yn y gymuned, llwybrau cyflogadwyedd a dysgu uniongyrchol trwy brosiectau fel Y Fenter (The Venture), Dream Safety, Wilderness Tribe a Heritage Workshop.

Mae'r UCD yn ymateb yn ystwyth i achosion cymhleth, gan gynllunio pecynnau teilwredig sy'n ailennyn ymddiriedaeth ac yn atal uwchgyfeirio. Mae tystiolaeth gynnar yn dangos gostyngiadau sylweddol yn nifer y disgyblion sydd angen cael eu tiwtora neu'n cael eu cyfeirio ar gyfer AHY. Dywed ysgolion fod ymyriadau ataliol yn gwella presenoldeb, cymhelliant a pherthnasoedd ag oedolion.

Mae'r enghraifft hon yn dangos effaith bosibl model ataliol sy'n blaenoriaethu ymyrraeth gynnar, ymgysylltu galwedigaethol ac arfer berthynol. Mae'n dangos bod buddsoddiad

strategol mewn darpariaeth gyfannol yn gallu lleihau dibyniaeth ar wasanaethau tiwtora a chynnal mwy o ddisgyblion o fewn addysg brif ffrwd.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ein sampl yn dangos dealltwriaeth glir o'r angen i diwtora weithredu fel rhan o gontinwwm cymorth ehangach. Roedd hyn yn cynnwys ymyriadau ataliol mewn ysgolion, lleoliadau arbenigol mewn UCDau, pecynnau tiwtora tymor byr, mentrau therapiwtig neu les a llwybrau ailintegreiddio. Roedd awdurdodau a oedd yn ymdrin â'r continwwm hwn yn strategol yn gallu sicrhau parhad a lleihau tarfu ar ddysgu yn well. Roedd eu gweledigaeth yn pwysleisio nodi cynnar, ymyrraeth amserol a chysylltiadau cryf rhwng ysgolion, UCDau a darparwyr tiwtora.

Fodd bynnag, roedd y graddau y cyflawnwyd y bwriad strategol hwn yn dibynnu'n helaeth ar ansawdd systemau lleol, capasiti arwain a chydweithio amlasiantaethol. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd trefniadau llywodraethu yn dra datblygedig, a phanelau lleoliadau amlasiantaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu atgyfeiriadau, ystyried gwybodaeth asesiadau a monitro addasrwydd parhaus. Yn nodweddiadol, roedd y panelau hyn yn cynnwys seicolegwyr addysg, swyddogion ADY, arweinwyr presenoldeb a staff cymorth ieuenctid. Roedd amrywiaeth yn yr arbenigedd yn cryfhau deialog broffesiynol ac yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch lleoliadau tiwtora yn adlewyrchu dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion disgyblion.

At ei gilydd, mewn awdurdodau lleol, mae model y panel wedi esblygu'r tu hwnt i reolaeth achosion i swyddogaeth fel lifer strategol ar gyfer gwella systemau. Mae'r panelau hyn yn craffu ar batrymau sy'n dod i'r amlwg mewn atgyfeiriadau, yn nodi amrywiadau mewn arfer ar draws ysgolion ac yn herio darparwyr i addasu darpariaeth pan fydd anghenion disgyblion yn newid. Roedd arweinwyr yn yr awdurdodau hyn yn deall bod rhaid i diwtora aros yn hyblyg ac yn ymatebol, gan addasu o ran dwysedd, lleoliad a ffocws y cwricwlwm wrth i amgylchiadau disgyblion newid. Mae'r addasrwydd strategol hwn yn arwain at ddarpariaeth fwy cydlynus a chydbwysedd cryfach rhwng dysgu yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig o awdurdodau lleol, nid oedd systemau panel yn nodi anghenion disgyblion ynghylch gwasanaethau tiwtora yn gywir. Yn ychwanegol, mewn gormod o achosion, nid oedd cyfyngiad amser clir i'r cynnig tiwtora gael ei adolygu gan banel, ac felly nid oedd cynllun ailintegreiddio clir.

Roedd amrywiadau o ran sut mae cyfrifoldebau rhwng ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol yn cael eu disgrifio a'u deall. Yn y modelau cryfaf, roedd cyfrifoldebau wedi cael eu diffinio'n glir, a llwybrau cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid wedi cael eu gwreiddio'n dda. Yn y rhan fwyaf o achosion yn yr enghreifftiau hyn, roedd ysgolion yn parhau i fod yn atebol am eu disgyblion hyd yn oed pan mae'r disgyblion yn cael eu tiwtora, ac roedd UCDau yn cydweithio ag ysgolion prif ffrwd i gefnogi dilyniant ac ailintegreiddio. Roedd awdurdodau lleol yn goruchwylio'r system gyfan, gan sicrhau cydlyniant a chysondeb. Mewn cyferbyniad, lle roedd darpariaeth yn llai effeithiol, roedd rolau a chyfrifoldebau yn gorgyffwrdd neu'n aneglur, gan arwain at gyfathrebu anghyson, disgwyliadau amrywiol ac oedi mewn gwneud penderfyniadau.

Er bod llawer o awdurdodau wedi dangos cyfeiriad strategol clir wrth oruchwylio gwasanaethau tiwtora, mae amrywioldeb cenedlaethol yn parhau i fod yn nodwedd sy'n diffinio'r sector. Mae'r anghysondebau a nodwyd yn y bennod hon yn amlygu'r angen am aliniad cenedlaethol cliriach a gwerthuso lleol mwy systematig. Mae absenoldeb fframwaith cenedlaethol unedig ar gyfer olrhain oriau tiwtora, monitro ehangder y cwricwlwm a gwerthuso llwybrau ailintegreiddio yn cyfrannu at arfer dameidiog. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, roedd ansawdd y ddarpariaeth a gaiff disgybl yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar ble mae'n byw, capasiti ei ysgol ac argaeledd adnoddau lleol yn hytrach nag ar hawl gyson neu aliniad clir ag anghenion unigol.

Er bod enghreifftiau o arfer gref, mae'r darlun cenedlaethol yn datgelu anghysondeb sylweddol. Nid oedd sawl awdurdod wedi datblygu strategaeth gydlynus eto sy'n disgrifio'n glir ddiben tiwtora o fewn y system AHY ac ysgolion ehangach. Yn y meysydd hyn, roedd gwasanaethau tiwtora, UCDau, platfformau ar-lein a darparwyr wedi eu comisiynu yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd, i raddau helaeth, ac nid oeddent wedi

eu halinio'n ddigon da ag unrhyw strategaethau cymorth mewn ysgolion. Mae tystiolaeth o'n gwaith maes yn dangos bod y diffyg integreiddio hwn yn arwain at ddyblygu ymdrech, dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau, ac amrywiad sylweddol ym mhrofiadau addysgol disgyblion. Mewn awdurdodau o'r fath, roedd yn gyffredin i ddisgyblion dderbyn gwahanol lefelau o gymorth yn dibynnu ar yr ysgol y maent yn ei mynychu, sy'n cyfrannu at annhegwch o ran mynediad at y cwricwlwm a deilliannau.

Comisiynu gwasanaethau tiwtora gan awdurdodau lleol yn strategol

Mae adroddiad Llywodraeth Cymru o 2020, sef Adolygiad o Drefniadau Comisiynu Awdurdodau Lleol ar gyfer Darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol yn nodi bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol naill ai contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth ar waith gyda darparwyr allanol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y gallai awdurdodau lleol fod yn fwy rhagweithiol wrth fonitro darpariaeth, yn enwedig o ran ansawdd y ddarpariaeth a'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion disgyblion.

Lle mae awdurdodau lleol yn comisiynu darparwyr allanol ar gyfer AHY, mae gan y rhan fwyaf ohonynt fframwaith comisiynu neu gytundeb lefel gwasanaeth ar waith sy'n cynnwys fframwaith sicrhau ansawdd. Mae'r cytundebau contractiol hyn yn darparu lefelau anghyson o her i sicrhau ansawdd y cynnig cwricwlwm. Lle mae arfer yn effeithiol, mae'r her trwy'r fframwaith sicrhau ansawdd, gyda chyfarfodydd ac ymweliadau sicrhau ansawdd rheolaidd â safleoedd darparwyr i asesu addasrwydd yr addysgu a'r dysgu.

Mae ein tystiolaeth yn nodi bod ychydig o awdurdodau yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar ddarparwyr wedi eu comisiynu ar raddfa fach heb sefydlu mecanweithiau sicrhau ansawdd cadarn yn ddigonol. Roedd goruchwylio diogelu, cynllunio'r cwricwlwm, cymwysterau staff ac alinio â chanllawiau cenedlaethol yn anghyson. Gallai darparwyr weithredu ag ymreolaeth sylweddol, ac nid yw awdurdodau lleol bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth ddibynadwy o beth mae disgyblion yn ei ddysgu na pha mor dda y maent yn dod yn eu blaen. Roedd y bylchau hyn mewn goruchwyliaeth yn cyfyngu ar gapasiti awdurdodau i werthuso effaith ac ymyrryd yn briodol pan nad yw darpariaeth yn diwallu anghenion.

Trefniadau i ddiwallu anghenion addysgol disgyblion unigol, yn cynnwys y disgyblion hynny sydd ag ADY ac angen cael eu tiwtora

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn nodi:

> *18.13. Os trefnwyd darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, gall plentyn neu berson ifanc barhau i fod wedi'i gofrestru'n ddisgybl yn yr ysgol wreiddiol (a oedd yn cynnal y CDU). Fodd bynnag, os yw'r disgybl yn cael ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad (er enghraifft, trwy ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn Uned Cyfeirio Disgyblion a bod*

> *yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r ysgol am ddarparu addysg i'r disgybl), yr awdurdod lleol fydd yn dod yn gyfrifol am gynnal y CDU (gweler Pennod 28). Fel arall, os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn parhau'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol wreiddiol wrth dderbyn addysg heblaw yn yr ysgol ac eithrio fel disgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu fyfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad addysg bellach (er enghraifft, os yw'r disgybl yn derbyn hyfforddiant unigol gartref neu yn yr ysbyty oherwydd salwch tra ei fod dal yn ddisgybl), gall fod yn fwy priodol i'r awdurdod lleol cyfrifol gymryd y cyfrifoldeb am gynnal y CDU.*

Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn dangos ymrwymiad cryf i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY. Mae gan fwyafrif y disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora broffiliau cymhleth, yn cynnwys anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl, gorbryder parhaus, gwahaniaethau niwroddatblygiadol ac effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. O ganlyniad, mae cynllunio wedi'i lywio gan ADY yn hanfodol i sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at ddysgu yn ystyrlon.

Yn y darparwyr cryfaf, roedd staff yn defnyddio ystod gynhwysfawr o asesiadau, yn cynnwys profion gwaelodlin, offer diagnostig, proffiliau un dudalen a CDUau manwl. Roedd hyn yn galluogi arweinwyr a thiwtoriaid i ffurfio dealltwriaeth gyfannol o anghenion disgyblion a chynllunio cymorth priodol. Roedd y darparwyr hyn yn ymgorffori arferion sy'n ystyriol o drawma ar draws eu cwricwlwm a'u systemau bugeiliol. Roeddent yn deall bod rheoleiddio emosiynol ac ymdeimlad o ddiogelwch yn rhagofynion ar gyfer dysgu a darpariaeth wedi'i chynllunio a oedd yn creu amgylcheddau rhagweladwy sy'n berthynol gadarn.

Roedd sawl darparwr hefyd yn cyfuno dysgu academaidd ag ymyrraeth therapiwtig, rhaglenni lles, ymgysylltu galwedigaethol a datblygiad medrau cymdeithasol. Mae modelau felly yn adlewyrchu'n well y continwwm sydd ei angen ar gyfer disgyblion sy'n wynebu rhwystrau emosiynol neu ymddygiadol rhag dysgu. Mewn llawer o'r darparwyr hyn, roedd arbenigwyr ADY, seicolegwyr a chynorthwywyr cymorth yn darparu arbenigedd gwerthfawr sy'n cryfhau gwahaniaethu, personoli'r cwricwlwm ac ymyrraeth dargedig.

Mae'r ciplun canlynol o Gaerffili yn esbonio effaith drawsnewidiol cymorth perthynol sydd wedi'i wreiddio mewn ymwybyddiaeth o ADY.

Argaeledd emosiynol ac ymyrraeth gynnar yn cefnogi lles (The Hive, Caerffili)

Caiff lles disgyblion ei gefnogi'n effeithiol trwy nodi'n gynnar y rhai sydd angen cymorth emosiynol dwysach. Wedi iddynt gael eu derbyn i ddechrau, mae rhai disgyblion yn treulio amser gyda chynorthwyydd addysgu profiadol sy'n gweithredu fel eu 'hoedolyn sydd ar gael yn emosiynol'. Mae'r oedolyn hwn yn cynnig presenoldeb cyson ac ymddiriedus dros

gyfnod cynaledig, tua thymor, fel arfer, ac yn ystod y cyfnod hwn, mae'n gweithio'n ddyfal ar anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r cymorth yn digwydd mewn darpariaeth dawel, ar wahân, sy'n galluogi disgyblion i deimlo'n ddiogel a magu eu hyder o'r newydd yn raddol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cynorthwyydd yn hwyluso integreiddio disgyblion i'r grŵp tiwtora ehangach ar gyflymdra sy'n briodol i'w parodrwydd ac yn datblygu perthnasoedd cryf â rhieni a gofalwyr. Mae'r dull hwn yn helpu adfer ymddiriedaeth ac yn meithrin amgyffrediad cadarnhaol o addysg ar gyfer disgyblion a theuluoedd, fel ei gilydd.

Mae'r enghraifft hon yn amlygu pwysigrwydd arfer berthynol sy'n ystyriol o drawma o fewn y system diwtora ehangach. Mae angen medr proffesiynol sylweddol, lefelau uchel o fewnwelediad bugeiliol a chydweithio agos rhwng staff, teuluoedd a phartneriaid amlasiantaethol ar gyfer gwaith o'r fath.

Lle mae awdurdodau lleol wedi buddsoddi'n strategol mewn dulliau perthynol, yn enwedig y rhai sy'n cael eu llywio gan arferion sy'n ystyriol o drawma, roedd disgyblion yn datblygu parodrwydd gwell i gael mynediad at ddysgu ac elwa ar brofiadau cwricwlwm ehangach. Roedd arweinwyr yn yr awdurdodau hyn yn cydnabod bod perthnasoedd cryf yn hanfodol ar gyfer datblygu cynnydd disgyblion mewn darparwyr tiwtora. Roeddent yn ymgorffori'r athroniaeth hon trwy ddysgu proffesiynol cynhwysfawr, disgwyliadau clir ar gyfer rhyngweithio staff a monitro lles disgyblion yn drylwyr.

Fodd bynnag, roedd trefniadau ADY yn anghyson. Nid oedd systemau asesu wedi'u ffurfioli mewn llawer o ddarparwyr ar gyfer olrhain cynnydd fesul camau bach mewn parthau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol. Roedd tiwtoriaid yn dibynnu'n helaeth ar brofion safonedig neu arsylwadau cyffredinol heb fframwaith clir ar gyfer gwerthuso dilyniant. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i fonitro effaith, mireinio darpariaeth neu nodi anghenion dysgu proffesiynol.

Ym mwyafrif y darparwyr, nid oedd CDUau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i ffurfio addysgu neu gynllunio'r cwricwlwm. Efallai fod staff yn ymwybodol o anghenion disgyblion ond nid oeddent yn addasu strategaethau nac yn cynllunio ymyriadau targedig yn gyson. Mewn grwpiau oedran cymysg neu allu cymysg, nid oedd tiwtoriaid yn gwahaniaethu'n effeithiol oherwydd diffyg hyfforddiant arbenigol, amser cynllunio annigonol neu gyfle cyfyngedig i gael cyngor arbenigol. Nid oedd ychydig o ddarparwyr wedi eu comisiynu yn meddu ar y capasiti na'r arbenigedd i weithredu dulliau wedi eu llywio gan ADY, gan arwain at anghysondeb yn ansawdd a phriodoldeb y ddarpariaeth.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol ddarparu addysg ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol. Fodd bynnag, lle mae gan ddisgybl ADY gyda

CDU statudol a gynhelir, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) gytûn. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae cymorth tiwtora yn diweddu pan mae disgyblion yn 16 oed, hyd yn oed lle mae gan ddisgyblion CDU statudol a gynhelir gan awdurdod lleol ac nid ydynt yn barod eto i bontio i addysg bellach neu hyfforddiant. Mae hyn yn arwain at anghysondeb mewn parhad dysgu, mynediad at gymwysterau priodol ac ansawdd cynllunio pontio ar gyfer disgyblion hŷn ag ADY.

Cyfnod pontio ac ailintegreiddio disgyblion

Mae maes allweddol arall o gyfrifoldeb awdurdodau lleol yn ymwneud â dilyniant a chyfnodau pontio o wasanaethau tiwtora i ddarpariaeth tymor hwy. Roedd ansawdd cymorth pontio yn amrywio, gan adlewyrchu gwahaniaethau yn strategaeth awdurdodau lleol, capasiti darparwyr ac argaeledd adnoddau. Yn yr enghreifftiau cryfaf, dechreuodd cynllunio pontio yn gynnar, roedd yn cael ei lywio gan asesiadau trylwyr ac yn cael ei lunio gan ymgysylltu ystyrlon â disgyblion a'u teuluoedd. Pan roedd arweiniad ar yrfaoedd a chynllunio'r cwricwlwm yn cyd-fynd â'i gilydd, roedd disgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o lwybrau ôl-16 a'r cymwysterau roedd eu hangen i fodloni eu nodau.

Mae un darparwr yn esbonio system eithriadol o glir ac effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio.

Ffocws cryf ar ddilyniant a chyrchfannau ôl-16 cynaledig (Darpariaeth wedi'i chomisiynu, Creative in Excellence, yn Sir Ddinbych)

Gan weithio'n agos â'r awdurdod lleol, mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod gan ddisgyblion gynllun clir a gwybodus ar gyfer eu camau nesaf. Mae hyn yn cynnwys cyfnodau pontio yn ôl i addysg brif ffrwd neu i UCDau, colegau addysg bellach, darparwyr arbenigol neu fyd gwaith. Mae disgyblion yn cael cyngor gwybodus ar yrfaoedd ac yn teilwra'u cwricwlwm i fodloni gofynion mynediad ar gyfer eu cyrchfannau dewisol. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o lwybrau coleg ac yn addasu eu rhaglenni dysgu yn unol â hynny. Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol â darparwyr addysg lleol i gefnogi lles yn ystod cyfnodau pontio. O ganlyniad, mae'r darparwyr wedi dweud bod cyfraddau isel iawn o ddisgyblion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae'r enghraifft hon yn amlygu pwysigrwydd alinio darpariaeth diwtora â llwybrau ôl-16 ehangach. Mae awdurdodau a darparwyr sy'n buddsoddi mewn addysg yrfaoedd, profiadau yn gysylltiedig â gwaith ac arweiniad personoledig yn fwy tebygol o sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc. I'r gwrthwyneb, lle mae strwythurau o'r fath yn absennol, gallai disgyblion gyrraedd diwedd gwersi tiwtora heb gynllun clir, sy'n cynyddu risg o ymddieithrio neu fod yn bobl ifanc NACH. Mae ffocws strategol ar draws awdurdod

ar gyfnodau pontio ar draws y continwwm AHY yn cryfhau cydlyniant llwybrau ac yn codi disgwyliadau ymhlith staff, disgyblion a theuluoedd. Mae'n atgyfnerthu'r syniad y dylai tiwtora fod wedi'i gyfyngu gan amser, yn bwrpasol ac wedi'i gysylltu â dyfodol ystyrlon.

Mae enghraifft arall yn esbonio gwerth paratoi ôl-16 strwythuredig o fewn model awdurdod lleol mawr.

Paratoi disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer addysg ôl-16 (Gwasanaeth Tiwtora Caerdydd)

Mae Gwasanaeth Tiwtora Caerdydd wedi sefydlu rhaglen gref o weithgareddau a digwyddiadau i gefnogi disgyblion uwchradd hŷn wrth iddynt gynllunio ar gyfer darpariaeth ôl-16. Mae disgyblion Blwyddyn 11 yn mynychu sesiynau wythnosol sy'n canolbwyntio'n eglur ar yrfaoedd a byd gwaith. Mae siaradwyr o sefydliadau allanol yn cyfrannu at y sesiynau hyn, ac mae disgyblion yn ymweld â cholegau, gweithleoedd lleol a darparwyr allanol. Mae digwyddiad gyrfaoedd blynyddol "Future Fest" yn dod â disgyblion, rhieni a staff o'r gwasanaeth tiwtora, yr UCD a'r gymuned sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, at ei gilydd. Mae ystod eang o ddarparwyr ôl-16 a chyflogwyr yn mynychu, gan gynnig gwybodaeth ac arweiniad. Mae disgyblion hefyd yn cael ymweliadau bob pythefnos gan Gyrfa Cymru i gefnogi cynllunio pontio unigol. Mae'r rhaglen hon yn magu hyder ac yn darparu casgliad eang o opsiynau ar gyfer disgyblion wrth ystyried cyrchfannau yn y dyfodol.

Mewn awdurdodau lleol lle roedd dulliau systematig felly wedi cael eu gwreiddio, roedd disgyblion yn dangos lefelau uwch o ddyhead a pharodrwydd ar gyfer llwybrau ôl-16. Roedd cydlyniant cynllunio cyfnodau pontio yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu hyder, eu hymdeimlad o alluogedd a'u hymgysylltiad â dysgu. Roedd yr awdurdodau hyn yn deall bod rhaid i diwtora effeithiol gynnwys elfennau sy'n wynebu'r dyfodol sy'n paratoi disgyblion nid yn unig i ailymgysylltu ag addysg ar unwaith, ond hefyd i symud ymlaen yn ystyrlon i gyfleoedd pellach.

Fodd bynnag, nid oedd awdurdodau lleol bob amser yn mabwysiadu dulliau systematig clir i gynllunio cyfnodau pontio ar gyfer disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora. Roedd hyn yn cynnwys ar gyfer disgyblion iau yn 11 oed, ac ar gyfer disgyblion hŷn yn 16 oed. Yn yr awdurdodau hyn, roedd trefniadau pontio yn aml yn ymatebol, heb eu cydlynu ac yn dibynnu'n helaeth ar aelodau staff unigol. Gallai disgyblion gyrraedd Blwyddyn 11 heb ddealltwriaeth glir o lwybrau sydd ar gael neu'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer dilyniant. Mae'r diffyg strwythur hwn yn creu gorbryder i ddisgyblion, yn lleihau eu hymdeimlad o reolaeth ac yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn bobl ifanc NACH.

Roedd anghysondeb sylweddol hefyd o ran sut aethpwyd ati i ailintegreiddio i addysg brif ffrwd. Yn yr awdurdodau cryfaf, roedd ailintegreiddio yn cael ei ddeall fel proses aml-ddimensiwn, tymor hir sy'n gofyn am gydweithio rhwng ysgolion, gwasanaethau tiwtora, UCDau a'r awdurdod lleol. Roedd arweinwyr yn cydnabod bod ailintegreiddio yn fwyaf llwyddiannus pan roedd yn cael ei gynllunio'n gynnar, ei gyfleu yn glir a'i gefnogi trwy gamau graddedig. Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn yr awdurdodau hyn yn dangos eu bod yn agored i ailintegreiddio, a bod set glir o ddisgwyliadau a strwythurau bugeiliol cadarn yn sail i hyn.

Roedd bron pob awdurdod lleol yn nodi rhwystrau rhag ailintegreiddio, yn cynnwys capasiti cyfyngedig mewn ysgolion prif ffrwd, dulliau amrywiol o gefnogi anghenion ymddygiad a chymorth lles, ac ansicrwydd ymhlith arweinwyr ynglŷn â sut i reoli dychweliadau rhannol neu raddol. Mynegodd llawer o ysgolion bryder am ddiwallu anghenion disgyblion sy'n dychwelyd o lwybrau AHY, yn enwedig wrth ymestyn staffio, adnoddau neu arbenigedd. Yn y cyd-destunau hyn, mae gwasanaethau tiwtora yn aml yn dod yn lleoliadau tymor hwy fel mater o drefn, yn hytrach nag yn ôl cynllun.

Mae'r diffyg llwyddiant wrth ailintegreiddio yn cynrychioli gwendid sylweddol yn y system ehangach ac mae iddo oblygiadau tymor hir i degwch a chyfleoedd bywyd. Mae disgyblion sy'n aros ar lai o oriau neu gynigion cwricwlwm cyfyngedig am gyfnodau estynedig yn peryglu dyfnhau eu hymddieithrio, cyfyngu ar eu dyheadau a phrofi llai o fynediad at gymwysterau.

Mynediad at gynnig cwricwlwm perthnasol, eang a chytbwys

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu gofynion gorfodol clir ar gyfer y cwricwlwm, Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cynnwys darpariaeth AHY.

Roedd profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY ac yn defnyddio gwasanaethau tiwtora yng Nghymru yn anghyson, gan adlewyrchu gwahaniaethau mewn cynllunio, adnoddau, staffio a threfniadau comisiynu awdurdodau lleol. Roedd lleiafrif o ddarparwyr, trwy weithio gyda'r awdurdod lleol, wedi datblygu modelau cwricwlwm uchelgeisiol a chydlynus sydd wedi eu gwreiddio yn egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, roedd llawer o ddisgyblion yn parhau i gael mynediad at gwricwlwm cyfyngedig neu dameidiog nad oedd yn cynnig ehangder, her na dilyniant digonol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth gryfaf a gwannaf yn dangos potensial gwasanaethau tiwtora i drawsnewid dysgu a'r materion strwythurol parhaus sy'n tanseilio tegwch ar gyfer disgyblion sydd eisoes yn fregus.

Mae'r cwricwlwm mewn gwasanaethau tiwtora yn bodoli gyda thensiwn cymhleth: rhaid i ddarparwyr sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i gynnig dysgu eang ac ystyrlon â realiti llai o oriau addysgu, patrymau presenoldeb afreolaidd, anghenion cymhleth disgyblion a lefelau amrywiol o gyfle i droi at staff arbenigol neu ddefnyddio cyfleusterau arbenigol. Roedd darparwyr a ymatebodd yn greadigol i'r cyfyngiadau hyn yn dangos bod modelau cwricwlwm uchelgeisiol ac o ansawdd uchel yn gyflawnadwy, hyd yn oed o fewn trefniadau rhan-amser neu hynod bersonoledig. Fodd bynnag, mewn llawer o ardaloedd, roedd y cwricwlwm yn cael ei lunio'n fwy gan gyfyngiadau gweithredol neu drefniadau comisiynu na chan anghenion disgyblion neu ddisgwyliadau cenedlaethol.

Mae tystiolaeth o'n gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos bod disgyblion sy'n cael eu tiwtora yn aml yn cyrraedd gyda bylchau sylweddol mewn dysgu, perthnasoedd yn chwalu gyda'r ysgol, llai o hyder, a gorbryder yn gysylltiedig ag amgylcheddau addysgol. O ganlyniad, nododd awdurdodau lleol a darparwyr, yn ogystal â gweithredu cwricwlwm wedi'i arwain gan ddiben, wedi'i yrru gan broses, fod angen iddynt hefyd feithrin ymddiriedaeth o'r newydd gyda disgyblion, cefnogi lles, ailennyn chwilfrydedd ac ymgysylltiad a darparu llwybrau pwrpasol tuag at ailintegreiddio neu ddilyniant.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, nid oedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn derbyn oriau addysgu digonol i elwa ar ehangder llawn profiadau cwricwlwm a ddisgwylir o dan Gwricwlwm i

Gymru. Roedd llawer o ddisgyblion yn cael cyn lleied â dwy neu dair awr o diwtora bob wythnos, a oedd yn cyfyngu ar y posibilrwydd i astudio ar draws pynciau a meysydd dysgu a phrofiad, gan ymgymryd â dysgu ymarferol neu gwblhau cymwysterau achrededig. Roedd gan yr oriau cyfyngedig hyn ganlyniadau uniongyrchol ar gyfer dilyniant disgyblion a deilliannau tymor hir, ac yn golygu hefyd nad oedd awdurdodau lleol yn cyflawni eu gofynion cyfreithiol. Mae'r anghysondeb mewn oriau a ddarperir ar draws gwahanol awdurdodau yn cyfrannu at annhegwch ledled Cymru, a phrofiadau disgyblion yn cael eu llunio'n nodedig gan bolisi lleol, pwysau o ran cyllidebau a chomisiynu dewisiadau yn hytrach na chan hawl genedlaethol gyson.

Roedd rhieni a gofalwyr yn aml yn ailadrodd y pryderon hyn. Dywedodd llawer ohonynt fod darpariaeth diwtora wedi'i chyfyngu yn aml i Saesneg a mathemateg, yn enwedig ar gyfer disgyblion o dan 14 oed, gyda mynediad cyfyngedig at wyddoniaeth a thechnoleg, y celfyddydau mynegiannol, y dyniaethau neu ddysgu galwedigaethol. Mynegodd rhieni bryderon nad oedd cynigion mor gyfyng yn adlewyrchu galluoedd neu ddiddordebau disgyblion, a'u bod yn cyfyngu'n sylweddol ar opsiynau yn y dyfodol. Lle roedd rhaglenni'r cwricwlwm yn ehangach ac yn fwy personoledig, dywedodd rhieni fod eu plentyn yn ymgysylltu'n well, gan ddangos mwynhad a hyder mewn dysgu.

Mae'r graddau yr oedd disgyblion yn cael mynediad at gwricwlwm eang a chytbwys yn parhau i fod yn un o'r marcwyr amrywiad allweddol yn ansawdd tiwtora. Yn y ddarpariaeth gryfaf, disgrifiodd arweinwyr resymeg cwricwlwm glir a oedd yn cyd-fynd â phedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac yn cael ei llywio gan asesiadau trylwyr a llais y disgybl. Roedd y darparwyr hyn yn cynllunio llwybrau dysgu hyblyg a oedd yn cyfuno dysgu academaidd, galwedigaethol a dysgu trwy brofiad, gan sicrhau bod anghenion, diddordebau a dyheadau disgyblion yn ffurfio'r cwricwlwm y maent yn ei dderbyn.

Dangosodd lleiafrif o ddarparwyr sut gall cynllunio cwricwlwm uchelgeisiol ffynnu hyd yn oed o fewn cyfyngiadau llai o oriau addysgu. Yn y darpariaethau hyn, roedd arweinwyr yn cynnig ystod eang o bynciau y tu hwnt i Saesneg a mathemateg, yn cynnwys gwyddoniaeth, celf, dylunio cynnyrch, cymwysterau yn seiliedig ar fwyd, addysg gorfforol, y dyniaethau ac addysg ariannol. Roeddent yn cyfoethogi'r cwricwlwm gyda dysgu yn yr awyr agored, y celfyddydau creadigol, medrau bywyd, chwaraeon a chyfleoedd cyfoethogi cynlluniedig sy'n cryfhau ymgysylltiad, lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Roedd y darparwyr hyn yn mynd ati i herio rhagdybiaethau yn seiliedig ar ddiffygion ynglŷn â beth gall disgyblion mewn tiwtora elwa arno neu'i gyflawni.

Daw enghraifft hynod gryf o ehangder ac uchelgais y cwricwlwm o Gasnewydd.

Cynnig cwricwlwm uchelgeisiol (Canolfan Gyflawni'r Bont, Casnewydd)

Mae arweinwyr yn yr UCD hon wedi creu cwricwlwm eithriadol o gyfoethog, uchelgeisiol ac wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer disgyblion sy'n defnyddio gwasanaethau tiwtora, sy'n nodedig o ran ei hangder a chydlyniant, o ystyried yr oriau llai a chymhlethdod anghenion disgyblion. Gall disgyblion astudio ar gyfer hyd at 18 o gymwysterau academaidd, galwedigaethol a rhai yn seiliedig ar fedrau, yn cynnwys cymwysterau TGAU mewn Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Celf, Dylunio Cynnyrch ac Addysg Gorfforol, ynghyd

â chymwysterau galwedigaethol fel Coginio Cartref BTEC, Agored Cymru a chyrsiau a dyfarniadau City and Guilds mewn addysg ariannol.

Caiff y cwricwlwm ei lunio gan wybodaeth asesu fanwl, cynlluniau datblygu unigol (CDUau), proffiliau un dudalen a llais y disgybl a'r teulu, gan sicrhau bod llwybrau wir wedi'u personoli. Mae arweinwyr wedi cyflwyno llwybrau achredu cynnar ar gyfer disgyblion, yn cynnwys Dyfarniad y Celfyddydau, sy'n galluogi disgyblion i brofi llwyddiant cynnar ac adennill hyder. Caiff datblygiad personol ei weu ar draws rhaglenni, yn cynnwys rhaglenni Dug Caeredin ac Ymddiriedolaeth y Tywysog, ynghyd â chyfoethogi rheolaidd fel sesiynau campfa, gweithdai crefft, dysgu yn yr awyr agored a phrofiadau cymunedol. Mae cynlluniau gwaith cadarn a chydlyniant ar draws safleoedd tiwtora yn cefnogi parhad a dilyniant cryf. Mae'r model cwricwlwm hwn yn dangos sut gellir cyflawni uchelgais, ehangder a phersonoli hyd yn oed o fewn darpariaeth ran-amser.

Mae'r enghraifft hon yn dangos bod darpariaeth cwricwlwm uchelgeisiol yn gyflawnadwy a thrawsnewidiol, fel ei gilydd, gan gynnig llwybrau sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd ystyrlon, magu hunanhyder a chynnal dyheadau yn y dyfodol.

Mae enghraifft gref arall o ehangder y cwricwlwm yn deillio o fodel tiwtora hybrid mewn ysgolion yng Nghaerffili.

Cyflwyno cwricwlwm effeithiol ar gyfer gwasanaethau tiwtora sy'n arwain at ddeilliannau cryf ymhlith disgyblion (Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, Caerffili)

Trwy ddefnyddio'i chyllideb ddatganoledig gan yr awdurdod lleol, mae Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga wedi datblygu model tiwtora arloesol sy'n sicrhau bod disgyblion sy'n cael AHY yn cael eu tiwtora yn eu hysgol ac yn cynyddu eu hamser mewn gwersi prif ffrwd yn raddol. Caiff disgyblion fynediad llawn at y cwricwlwm prif ffrwd. Mae disgyblion yn parhau i astudio ystod lawn y cymwysterau TGAU a galwedigaethol sydd ar gael i'w cyfoedion, gan gynnwys opsiynau sy'n gofyn am gyfleusterau arbenigol ac arbenigedd pwnc. Mae staff y ganolfan diwtora yn cyflwyno pynciau craidd tra bod disgyblion yn mynychu gwersi prif ffrwd ar gyfer pynciau opsiwn a dysgu arbenigol. Mae'r ysgol yn ychwanegu at hyn trwy gynnal sesiynau cyfoethogi wythnosol yn canolbwyntio ar fedrau ymarferol fel coginio, cyllidebu a byw yn annibynnol. Caiff llwybrau cwricwlwm eu teilwra trwy asesiadau manwl, CDUau a chydweithio agos ag arweinwyr pwnc. Mae disgyblion yn dweud bod y cwricwlwm yn gefnogol, yn hyblyg ac yn ddyheadol.

Mae'r model hwn yn dangos grym dull hybrid sy'n sicrhau bod disgyblion wedi eu cysylltu'n gadarn â'r cwricwlwm prif ffrwd, gan leihau ynysu a chynnal disgwyliadau uchel. Mae'n dangos sut gall ysgolion prif ffrwd, gyda chefnogaeth ariannol ar gyfer

gwasanaethau tiwtora a chynllunio strategol clir, greu modelau tiwtora hynod gynhwysol a theg.

Gellir sicrhau tegwch o ran cwricwlwm llawn hefyd trwy ddarpariaeth ar-lein gadarn sydd wedi'i chyfyngu gan amser, fel y dangoswyd gan arfer un UCD ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Sicrhau tegwch o ran cwricwlwm llawn (UCD Portffolio Darpariaeth Amgen Y Bont, Pen-y-bont ar Ogwr)

Mae arweinwyr yn UCD Y Bont yn sicrhau bod disgyblion sy'n cael addysg trwy wasanaethau tiwtora'r UCD, ac nad ydynt yn gallu mynychu'r prif safle, yn parhau i elwa ar ehangder llawn cwricwlwm yr UCD. Cyflwynir gwasanaethau tiwtora trwy addysgu ar-lein o ansawdd uchel, wedi'i gyfyngu gan amser, gan staff yr UCD, gan alluogi disgyblion sy'n derbyn gwasanaethau tiwtora i ddilyn yr un llwybrau cwricwlwm a chael mynediad at ystod gyflawn y pynciau a'r cymwysterau achrededig sydd ar gael i ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu ar y safle. O ganlyniad, ni chaiff hawl cwricwlwm disgyblion ei lleihau o'u gosod mewn gwasanaethau tiwtora.

Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cryf ar gynnal cydlyniant a dilyniant y cwricwlwm, a manylder pwnc, ar draws gwasanaethau tiwtora a darpariaeth ar y safle. Maent yn monitro ymgysylltiad, presenoldeb a chynnydd disgyblion yn agos ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i addasu addysgu a darparu cymorth amserol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgu'n cael ei drefnu'n dda, yn briodol o heriol ac yn cael ei feithrin yn gadarn dros gyfnod.

Yn UCD Y Bont, mae disgwyliadau clir arweinwyr yn sicrhau bod gwasanaethau tiwtora yn darparu cwricwlwm uchelgeisiol, eang a chytbwys. O ganlyniad, mae disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora yn elwa ar barhad, her gyson a mynediad teg at y cynnig cwricwlwm llawn, sy'n cefnogi deilliannau a dilyniant cadarnhaol.

Mae'r enghraifft hon yn dangos bod tegwch cwricwlwm o fewn cyrraedd trwy ystod o strwythurau, yn cynnwys darpariaeth yn yr UCD, yn yr ysgol neu ar-lein, pan mae gan arweinwyr weledigaeth glir a disgwyliadau cryf ar gyfer pob disgybl.

Er gwaethaf yr enghreifftiau hyn o arfer gref, mae ein tystiolaeth yn dangos nad oedd mwyafrif y disgyblion sy'n cael gwersi tiwtora ledled Cymru yn profi'r lefel hon o ehangder cwricwlwm. Roedd llawer o ddisgyblion yn dilyn amserlenni cyfyngedig iawn yn unig, a oedd fel arfer yn rhoi lle blaenllaw i Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, a gwyddoniaeth, o bryd i'w gilydd. Yn aml, roedd arweinwyr yn crybwyll oriau cyfyngedig, cyfyngiadau staffio a diffyg mynediad at leoedd addysgu arbenigol yn rhesymau dros gyfyngu ar y cwricwlwm. Mewn rhai ardaloedd, roedd trefniadau comisiynu yn pennu'r pynciau sydd ar

gael ymlaen llaw, gan arwain at fodelau sy'n blaenoriaethu cyfleustra gweithredol dros angen disgyblion.

Mae'r canlyniadau ar gyfer disgyblion yn arwyddocaol. Mae cwricwlwm cul yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu, yn lleihau'r tebygolrwydd o lwyddo mewn cymhwyster ac yn gwaethygu anghydraddoldebau presennol. Dywedodd llawer o ddisgyblion y siaradom â nhw eu bod yn teimlo wedi diflasu, heb eu symbylu neu nad ydynt yn gallu dilyn eu diddordebau o fewn gwersi tiwtora, gan arwain at fwy o ymddieithrio neu bresenoldeb gwael. Mae'r diffyg cyfle i fanteisio ar gyfleoedd creadigol, ymarferol neu alwedigaethol yn cyfyngu ar allu disgyblion i adnabod cryfderau neu brofi llwyddiant, sy'n cyfyngu ymhellach eu hopsiynau yn y dyfodol.

Yn ychwanegol, roedd cynllunio'r cwricwlwm yn anghyson. Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, roedd cynlluniau gwaith yn fanwl, yn ddilyniadol ac yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddarpariaethau, nid oedd cynllunio'r cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol neu nid oedd yn ddigon cydlynus. Mae rhai darparwyr yn dibynnu'n helaeth ar addasiadau neu daflenni gwaith wedi'u harwain gan diwtor, gan arwain at ddysgu tameidiog. Roedd disgwyliadau ar gyfer disgyblion mwy abl yn rhy isel mewn sawl gwasanaeth tiwtora, gyda diffyg her mewn deunyddiau addysgu. Mae effaith gronnol oriau cyfyngedig, modelau cwricwlwm cul a chynllunio anghyson yn golygu nad oes digon o ddisgyblion mewn tiwtora yn cael eu hawl lawn i'r cwricwlwm, ac fe gaiff y cynnydd a wnânt ei rwystro.

Cefnogaeth ar gyfer lles disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora

Yn ei chanllawiau statudol, Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol (Mawrth 2021), mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr ynghylch disgyblion sy'n cael gwasanaethau tiwtora. Mae'r canllawiau'n ceisio sicrhau bod lles yn cael ei ymgorffori ym mhob darparwr addysgol, a bod disgyblion sy'n derbyn gwersi tiwtora unigol yn cael eu cynnwys yn yr un fframweithiau amddiffynnol a chefnogol â'u cyfoedion yn y brif ffrwd.

Mae'r fframwaith yn ymdrin yn eglur â darparwyr AHY ac UCDau, gan osod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau i gefnogi lles pob un o'r disgyblion, yn cynnwys y rhai sy'n cael gwersi tiwtora i ffwrdd o ystafelloedd dosbarth prif ffrwd. I ddisgyblion sy'n cael gwersi tiwtora unigol (e.e. yn y cartref neu yn yr ysbyty), mae'r canllawiau'n argymell cynlluniau lles personoledig. Dylai'r rhain gynnwys cydweithio ymhlith ysgolion, awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol i ddeall a mynd i'r afael ag anghenion emosiynol pob plentyn. Mae'n ofynnol i ddarparwyr tiwtora gydymffurfio â safonau diogelu, bod yn effro i

bryderon emosiynol, a chysylltu disgyblion â chymorth lles neu gymorth therapiwtig ychwanegol, pan fydd angen.

Pan mae awdurdodau lleol wedi buddsoddi'n strategol mewn dulliau perthynol, yn enwedig y rhai sy'n cael eu llywio gan egwyddorion sy'n ystyriol o drawma, roedd disgyblion yn datblygu mwy o barodrwydd i ddysgu ac yn elwa ar brofiadau cwricwlwm ehangach. Roedd arweinwyr yn yr awdurdodau hyn yn cydnabod nad yw perthnasoedd cryf yn ychwanegiad, ond yn floc adeiladu hanfodol ar gyfer gwneud cynnydd mewn darparwyr tiwtora. Roeddent yn ymgorffori'r athroniaeth hon trwy ddysgu proffesiynol cynhwysfawr, disgwyliadau clir ar gyfer rhyngweithio staff a monitro lles disgyblion yn drylwyr.

Cyfoethogi'r cwricwlwm mewn gwasanaethau tiwtora

Mae gwasanaethau tiwtora effeithiol yn cydnabod bod cyfoethogi'r cwricwlwm yn elfen hanfodol o ddysgu a lles disgyblion, yn hytrach nag ychwanegiad opsiynol. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, lle roedd cyfoethogi'n cael ei gynllunio'n bwrpasol, roedd yn helpu disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora i brofi cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adlewyrchu uchelgeisiau Cwricwlwm i Gymru. Roedd gweithgareddau cyfoethogi, yn cynnwys y celfyddydau creadigol, gweithgarwch corfforol, dysgu yn yr awyr agored,

profiadau galwedigaethol a dysgu yn y gymuned, yn galluogi disgyblion i ddatblygu medrau, diddordebau a dyheadau ehangach ochr yn ochr â dysgu academaidd.

Cwricwlwm difyr, eang a chytbwys ar gyfer disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora (awdurdod lleol Caerffili)

Yng Nghaerffili, mae arweinwyr wedi datblygu *Grŵp Antur Caerffili* i ymestyn cyfoethogi'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg trwy wasanaethau tiwtora. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnig cyfleoedd dysgu strwythuredig yn yr awyr agored a thrwy brofiad sy'n ychwanegu at raglenni academaidd disgyblion ac yn cyd-fynd yn agos â Chwricwlwm i Gymru. Caiff gweithgareddau eu cynllunio'n ofalus i ddatblygu lles corfforol, hyder, gwaith tîm a medrau datrys problemau disgyblion, tra'n cefnogi eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u datblygiad personol, hefyd.

Mae staff yn defnyddio gweithgareddau cyfoethogi yn effeithiol i ailymgysylltu â disgyblion sydd wedi profi tarfu ar eu haddysg neu orbryder am ddysgu ffurfiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos presenoldeb gwell, perthnasoedd cryfach ag oedolion a pharodrwydd cynyddol i gymryd rhan mewn dysgu. Mae arweinwyr yn sicrhau nad yw cyfoethogi yn cael ei drin fel gweithgarwch ar ei ben ei hun ond yn hytrach yn cael ei integreiddio'n gydlynus yng nghynlluniau dysgu unigol disgyblion, gan gefnogi lles a dilyniant dros gyfnod.

Roedd cyfoethogi o ansawdd uchel yn cefnogi ymgysylltiad disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai y bu tarfu ar eu profiadau blaenorol o addysg neu y buont yn aflwyddiannus. Roedd gweithgareddau ymarferol ac wedi eu harwain gan ddiddordebau yn helpu magu hyder disgyblion o'r newydd ac yn cynyddu eu cymhelliant i gymryd rhan mewn dysgu. I lawer o ddisgyblion mewn gwasanaethau tiwtora, roedd cyfoethogi'n darparu cyfleoedd i brofi llwyddiant, datblygu perthnasoedd cadarnhaol ag oedolion a chyfoedion, ac ailgysylltu â dysgu mewn ffordd ystyrlon. Roedd hyn yn arbennig o fuddiol ar gyfer disgyblion ag ADY neu'r rhai a oedd wedi profi trawma, gorbryder neu absenoldeb hir o'r ysgol.

Cyfoethogi'r cwricwlwm o fewn gwasanaethau tiwtora (awdurdod lleol Wrecsam)

Yn Wrecsam, mae arweinwyr wedi datblygu ymagwedd gryf at gyfoethogi'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion a allai ddod yn bobl ifanc NACH, ac ar gyfer y rhai mewn gwasanaethau tiwtora sy'n ehangu profiadau dysgu disgyblion ac yn cefnogi lleoliadau cynaledig mewn addysg, neu ailymgysylltu ag addysg. Ochr yn ochr â gwersi tiwtora academaidd, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cyfoethogi galwedigaethol, ymarferol ac wedi'u seilio ar fedrau, yn cynnwys adeiladu a dysgu ar y tir, arlwyo a pharatoi bwyd, y celfyddydau creadigol, y cyfryngau digidol a rhaglenni datblygiad personol a chymdeithasol. Caiff y gweithgareddau hyn eu dewis yn ofalus i adlewyrchu diddordebau a chryfderau disgyblion, a'u dyheadau yn y dyfodol.

Mae arweinwyr yn defnyddio gweithgareddau cyfoethogi yn effeithiol i ddarparu profiadau dysgu ystyrlon, byd go iawn ar gyfer disgyblion, sy'n magu hyder, annibyniaeth ac yn meithrin medrau cyflogadwyedd. Mae gweithgareddau yn yr awyr agored ac yn y gymuned, fel dysgu yn gysylltiedig â gwaith a heriau tîm, yn helpu disgyblion i ddatblygu gwydnwch, medrau cyfathrebu a datrys problemau. I lawer o ddisgyblion, mae'r profiadau

hyn yn darparu cyd-destun cadarnhaol ar gyfer datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn ffyrdd cymhwysol a difyr.

Mae'r cynnig cyfoethogi hwn yn hynod effeithiol ar gyfer disgyblion sydd wedi profi ymddieithrio hir neu anhawster o ran cael mynediad at addysg brif ffrwd. Mae staff yn integreiddio gweithgareddau cyfoethogi yn gydlynus â chynlluniau dysgu unigol disgyblion, gan sicrhau eu bod yn ychwanegu at ddysgu academaidd yn hytrach na'i ddisodli. O ganlyniad, mae disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora yn profi cwricwlwm ehangach a mwy cymhellol sy'n cefnogi ymgysylltu, lles a pharodrwydd gwell ar gyfer symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Pan fydd mae arweinwyr yn integreiddio cyfoethogi yn gydlynus o fewn y cwricwlwm, mae'n cyfrannu'n gadarnhaol at gynnydd a datblygiad personol disgyblion. Mae gweithgareddau cyfoethogi yn fwyaf effeithiol pan maent wedi eu cysylltu'n glir â nodau a dilyniant y cwricwlwm, yn hytrach na gweithredu ar wahân. Yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd gwasanaethau tiwtora yn defnyddio cyfoethogi i ymestyn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â datblygu annibyniaeth a gwydnwch disgyblion, a'u parodrwydd ar gyfer dysgu neu gyflogaeth yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae ein tystiolaeth hefyd yn dangos amrywioldeb yn ansawdd ac argaeledd cyfoethogi'r cwricwlwm ar draws gwasanaethau tiwtora. Mewn arfer sy'n llai effeithiol, roedd cyfoethogi wedi'i gyfyngu gan drefniadau comisiynu tymor byr, cyfyngiadau staffio neu or-bwyslais ar bynciau allweddol, fel mathemateg a Saesneg neu Gymraeg, ar draul dysgu ehangach. Lle roedd cyfleoedd cyfoethogi yn anghyson neu wedi eu cynllunio'n wael, roedd profiadau disgyblion yn fwy cul ac nid oeddent yn cefnogi eu hawl i gwricwlwm cyfoethog ac uchelgeisiol yn llawn.

Sut caiff y cwricwlwm ei bersonoli i ddiwallu anghenion disgyblion

Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn dangos ymrwymiad cryf i bersonoli'r cwricwlwm fel ei fod yn adlewyrchu anghenion a diddordebau unigol disgyblion, a'u dyheadau tymor hwy. Gan gydnabod bod llawer o ddisgyblion sy'n mynychu gwasanaethau tiwtora wedi profi tarfu ar eu haddysg, roedd darparwyr yn symud yn gynyddol oddi wrth raglenni safonedig tuag at becynnau dysgu teilwredig. Roedd y rhain yn cael eu llunio'n ofalus i ennyn ailymgysylltiad disgyblion, magu hyder o'r newydd a darparu camau nesaf ystyrlon.

Yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd arweinwyr a thiwtoriaid yn gweithio'n agos gyda disgyblion i gyd-lunio llwybrau dysgu a oedd yn cydbwyso medrau craidd â meysydd o ddiddordeb personol. Roedd rhaglenni'n cael eu haddasu o ran cynnwys, cyflymdra a chyflwyno, yn aml yn cyfuno astudio academaidd â phrofiadau ymarferol, galwedigaethol neu yn y gymuned. Roedd y dull hyblyg hwn yn galluogi disgyblion i lwyddo, datblygu

medrau trosglwyddadwy a gweld perthnasedd clir rhwng eu dyheadau dysgu presennol ac yn y dyfodol.

Roedd darparwyr effeithiol hefyd yn sicrhau bod cwricwla personoledig yn cael eu cysylltu'n eglur â llwybrau dilyniant cynlluniedig. Roedd staff yn mapio dysgu'n ofalus yn erbyn llwybrau yn y dyfodol, fel ailintegreiddio i ysgol brif ffrwd, mynediad i addysg bellach, prentisiaeth neu gyflogaeth. Roedd adegau adolygu rheolaidd yn galluogi rhaglenni i esblygu wrth i hyder, ymgysylltiad a nodau disgyblion ddatblygu. Yn y lleoliadau hyn, nid oedd personoli ynglŷn â gwahaniaethu o fewn gwersi yn unig, ond ynglŷn â chynllunio teithiau dysgu cydlynus ac unigoledig a oedd yn cefnogi lles uniongyrchol a dilyniant cynaledig y tu hwnt i'r gwasanaeth tiwtora.

Asesu cynnydd disgyblion sy'n derbyn gwasanaethau tiwtora

Mae asesu'n chwarae rôl ganolog mewn sicrhau bod gwasanaethau tiwtora yn diwallu anghenion disgyblion, yn sicrhau llwybrau cwricwlwm priodol ac yn cefnogi dilyniant, ailintegreiddio a chyfnodau pontio ôl-16. Roedd ansawdd a chydlyniant arfer asesu o fewn gwasanaethau tiwtora yn amrywiol ac yn adlewyrchu gwahaniaethau ehangach mewn strategaeth, trefniadau comisiynu a sicrhau ansawdd gan awdurdodau lleol. Yn y ddarpariaeth gryfaf, roedd asesu yn bwrpasol a pharhaus. Roedd staff yn ei ddefnyddio i

nodi mannau cychwyn disgyblion yn gywir, canfod bylchau mewn anghenion dysgu a lles, a chynllunio camau nesaf uchelgeisiol wedi'u halinio â Chwricwlwm i Gymru. Mewn cyferbyniad, mewn gormod o ddarparwyr, roedd asesu wedi'i gyfyngu i farn anffurfiol tiwtor neu brofion gwaelodlin cyfyng, ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n gyson i ffurfio ehangder y cwricwlwm, dulliau addysgu na llwybrau dilyniant disgyblion.

Lle roedd systemau awdurdodau lleol wedi eu datblygu'n dda, roedd gwybodaeth asesu yn cael ei chasglu a'i hadolygu trwy banelau lleoli ac adolygu amlasiantaethol. Mae'r panelau hyn yn nodweddiadol yn defnyddio tystiolaeth o ysgolion, UCDau, timau seicoleg addysg, presenoldeb ac ADY a gwasanaethau cymorth ieuenctid disgyblion. Mae'r ddeialog broffesiynol ehangach hon yn cryfhau'r drefn o ran gwneud penderfyniadau i sicrhau bod lleoliadau tiwtora, oriau a phwyslais y cwricwlwm yn adlewyrchu dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion disgyblion. Mewn nifer fach o awdurdodau, mae panelau'n defnyddio tystiolaeth asesu yn strategol i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg, herio arfer anghyson ar draws ysgolion a darparwyr, a mireinio'r continwwm cymorth lleol. Fodd bynnag, mewn sawl awdurdod, roedd gwybodaeth asesu yn anghyson neu'n anghyflawn, yn enwedig lle roedd disgyblion yn cael mynediad at wasanaethau wedi eu comisiynu ar-lein neu ar raddfa fach, a oedd yn cyfyngu ar allu arweinwyr i farnu priodoldeb, monitro effaith neu addasu darpariaeth pan fydd amgylchiadau disgyblion yn newid.

Ar gyfer disgyblion ag ADY, mae asesu effeithiol wedi'i gysylltu'n agos â threfniadau cynllunio ac adolygu statudol. Yn y darparwyr cryfaf, roedd staff yn defnyddio CDUau, proffiliau un dudalen ac asesiadau arbenigol disgyblion i addasu addysgu, sgaffaldio dysgu a chynllunio cynnydd mewn camau bach, yn enwedig mewn parthau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu. Roedd darparwyr a oedd yn ymgorffori arfer sy'n ystyriol o drawma yn cydnabod bod rhaid i asesiadau gofnodi mwy na chyrhaeddiad academaidd. Roeddent yn gwerthuso parodrwydd i ddysgu, rheoleiddio emosiynol, ymgysylltu a hyder fel rhagofynion hanfodol ar gyfer cynnydd. Fodd bynnag, ym mwyafrif y darparwyr gwannach, nid oedd CDUau yn cael eu defnyddio'n gyson i lywio addysgu, ac nid oedd systemau ar gyfer olrhain cynnydd ychwanegol wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar fynediad disgyblion at lwybrau dysgu cymharus ac yn lleihau'r tebygolrwydd o ymgysylltu cynaledig neu ailintegreiddio llwyddiannus.

Prosesau asesu effeithiol (Canolfan Gyflawni'r Bont (UCD), Casnewydd)

Mae enghraifft hynod gryf o asesu effeithiol o fewn gwasanaethau tiwtora yn amlwg yng Nghanolfan Gyflawni'r Bont (UCD) yng Nghasnewydd, lle mae arweinwyr yn defnyddio cyfres gynhwysfawr o asesiadau i sefydlu mannau cychwyn a chynllunio amserlenni a

llwybrau cymhwyster personoledig. Mae tiwtoriaid yn defnyddio asesu yn fedrus i lunio'r camau nesaf ac yn addasu addysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth. Mae arweinwyr yn cryfhau hyn ymhellach trwy deithiau dysgu rheolaidd, craffu ar waith ac adolygiadau o ddarpariaeth bob hanner tymor, gan alluogi gwerthuso cyson o ran ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion ar draws safleoedd tiwtora.

Mae'r math hwn o arfer asesu systematig ac aml-haen yn cefnogi cydlyniant cwricwlwm cryfach, yn gwella cynllunio'r cwricwlwm ac yn cyfrannu at gynnydd a deilliannau cymhwyster buddiol. Mewn cyferbyniad, mewn llawer o ardaloedd, nid oedd awdurdodau lleol yn olrhain deilliannau asesu ar draws pob llwybr tiwtora gyda chysondeb digonol. Mae hyn yn lleihau goruchwyliaeth o ehangder a her y cwricwlwm, yn cynyddu'r risg fod disgyblion yn aros ar raglenni cul am gyfnodau estynedig, ac yn gwanhau cyfleoedd swyddogion awdurdodau lleol i werthuso effaith tiwtora ar ddilyniant, ailintegreiddio a chyrchfannau tymor hir.

Mynediad at addysg trwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg mewn gwasanaethau tiwtora wedi'i datblygu'n ddigonol ledled Cymru. Mae lleiafrif o awdurdodau wedi cynllunio modelau dwyieithog cydlynus sy'n sicrhau parhad datblygiad ieithyddol, hunaniaeth ddiwylliannol a chywerthedd cwricwlwm ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdodau hyn yn cynnal carfan o diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg, mynediad at adnoddau Cymraeg a llwybrau clir at gymwysterau cyfrwng Cymraeg.

Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig, yn ymatebol ac yn ddibynnol ar argaeledd tiwtoriaid unigol yn hytrach na strategaeth gynlluniedig. Ymhellach, mae mynediad disgyblion at addysg cyfrwng Cymraeg yn amrywio o ganlyniadau i newidiadau staffio neu benderfyniadau comisiynu. Caiff disgyblion hŷn eu heffeithio yn anghymesur, gan fod mynediad at addysgu cyfrwng Cymraeg arbenigol fel gwyddoniaeth, y dyniaethau neu ddisgyblaethau ymarferol yn gyfyngedig.

Mewn ychydig o awdurdodau, ni ddarperir unrhyw wersi tiwtora cyfrwng Cymraeg, gan olygu bod disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n dechrau cael gwasanaethau tiwtora yn aml yn derbyn eu haddysg yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Saesneg. Caiff hyn effaith uniongyrchol ar eu datblygiad ieithyddol, eu hyder a'u dilyniant. Dywed disgyblion fod dirywiad yn eu rhuglder, eu bod yn cael anhawster cynnal eu hunaniaeth ddwyieithog, a bod heriau o ran ailintegreiddio i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae mynediad at wersi tiwtora trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i sicrhau deilliannau achrededig yn y Gymraeg a chynnal dilyniant o fewn llwybrau cyfrwng Cymraeg. Er bod gan leiafrif o awdurdodau

fodelau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog cydlynus sy'n galluogi disgyblion i barhau i astudio ac ennill cymwysterau yn Gymraeg, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r ddarpariaeth yn gyfyngedig, yn ymatebol neu nid yw ar gael. O ganlyniad, mae disgyblion o gefndiroedd cyfrwng Cymraeg yn profi tarfu ar eu dysgu Cymraeg a llai o gyfleoedd i ennill cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd rhieni disgyblion cyfrwng Cymraeg fod mynediad at wersi tiwtora trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i gynnal hyder, hunaniaeth a lles disgyblion. Lle nad oedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael neu os oedd yn anghyson, roedd rhieni'n disgrifio llithro'n ôl yn ieithyddol, llai o ymgysylltu a gorbryder ynghylch ailintegreiddio i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddilyniant i lwybrau ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Mae'r profiadau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cynllunio strategol ar gyfer tiwtora cyfrwng Cymraeg yn hytrach na dibynnu ar argaeledd tiwtoriaid unigol.

Anaml y mae modelau tiwtora ar-lein yn darparu llwybrau cyfrwng Cymraeg, sy'n ehangu'r bwlch o ran tegwch ymhellach. Yn aml, nid oedd awdurdodau lleol yn olrhain mynediad cyfrwng Cymraeg yn systematig, gan gyfyngu ar eu gallu i fonitro tegwch neu gynllunio'n strategol.

Dywedodd awdurdodau lleol fod heriau o ran sicrhau gwersi tiwtora cyfrwng Cymraeg amserol ac o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY. Mewn llawer o ardaloedd, roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chomisiynu'n ymatebol, gan arwain at oedi, anghysondeb mewn ansawdd a tharfu ar barhad ieithyddol disgyblion. Mae'r ciplun hwn yn esbonio sut mae Ynys Môn wedi datblygu dull strategol, ymgorfforedig ar gyfer gwersi tiwtora cyfrwng Cymraeg sy'n sicrhau mynediad teg, yn cynnal hawl i'r cwricwlwm ac yn cefnogi lles a dilyniant disgyblion.

Ymgorffori gwersi tiwtora cyfrwng Cymraeg o fewn darpariaeth AHY i sicrhau parhad, cynhwysiant a dilyniant (Ynys Môn)

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu trefniadau effeithiol i sicrhau bod disgyblion sydd angen gwersi tiwtora unigol trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i allu manteisio ar ddarpariaeth addysgol gynhwysol, o ansawdd uchel. Ymgorfforir gwersi tiwtora cyfrwng Cymraeg o fewn trefniadau'r awdurdod ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol, ac fe'u hystyrir yn systematig yn ystod adeg gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys cytuno ar y cynnig cynlluniedig, sicrhau ehangder a chydbwysedd y cwricwlwm, datblygu cynnig personoledig a gosod dyddiadau adolygu clir. Mae hyn yn sicrhau bod gwersi tiwtora yn amserol, yn rhai tymor byr ac yn diwallu anghenion disgyblion. Mae swyddogion yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion sy'n cael cymorth cyfrwng Cymraeg yn cael eu paru'n brydlon â thiwtoriaid medrus sy'n siarad Cymraeg. Mae'r dull hwn yn sicrhau parhad mewn dysgu iaith ac yn cefnogi lles emosiynol disgyblion, yn enwedig ar gyfer y

rhai sy'n profi tarfu ar eu haddysg. Mae tiwtoriaid yn cynllunio dysgu'n ofalus, yn unol â Chwricwlwm i Gymru a Chynlluniau Datblygu Unigol disgyblion, gan sicrhau bod disgwyliadau academaidd a blaenoriaethau lles yn cyd-fynd â'i gilydd yn agos.

Caiff gwersi tiwtora cyfrwng Cymraeg eu cynllunio'n strategol yn hytrach nag yn ymatebol, gan sicrhau mynediad cyfartal a chysondeb ansawdd ar draws darpariaeth yr awdurdod. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael gwersi tiwtora cyfrwng Cymraeg yn parhau wedi ymgysylltu â dysgu, yn cynnal eu hyder mewn defnyddio'r Gymraeg ac wedi eu paratoi'n dda i ailintegreiddio i addysg brif ffrwd cyfrwng Cymraeg neu symud ymlaen yn llwyddiannus i lwybrau ôl-16.

Safbwyntiau disgyblion, rhieni a gofalwyr

Roedd profiadau rhieni a gofalwyr yn adlewyrchu'r anghysondebau yn ehangder a chydbwysedd profiadau cwricwlwm disgyblion ac yn nifer yr oriau sydd ar gael. Disgrifiodd llawer ohonynt berthnasoedd cadarnhaol â thiwtoriaid neu swyddogion unigol, ond dywedon nhw fod mynediad anghyfartal at ddarpariaeth, oedi wrth wneud penderfyniadau a diffyg eglurder am lwybrau atgyfeirio mewn rhai awdurdodau. Disgrifiodd lleiafrif o rieni a gofalwyr fod rhaid iddynt eirioli'n barhaus am gymorth priodol cyn i anghenion gael eu cydnabod. Lle roedd systemau awdurdodau lleol yn cael eu cydlynu'n dda, roedd rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi cyfathrebu rheolaidd, esboniadau clir am benderfyniadau a chyfryngu effeithiol rhwng ysgolion, darparwyr a theuluoedd. Lle roedd systemau'n wannach, roedd rhieni a gofalwyr yn aml yn disgrifio straen a dirywiad cynyddol yn lles disgyblion yn ystod cyfnodau hir heb ddarpariaeth addas.

Llais y disgybl

Lle caiff llais y disgybl ei wreiddio'n effeithiol mewn gwasanaethau tiwtora, roedd disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u deall. Roedd arfer gref yn cynnwys cyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion fynegi eu barn ar gynllunio'r cwricwlwm, dulliau addysgu, amserlennu a gweithgareddau cyfoethogi. Roedd staff yn defnyddio adborth disgyblion i addasu darpariaeth, cryfhau perthnasoedd a gwella ymgysylltu. Yn y darparwyr hyn, roedd disgyblion yn datblygu perchnogaeth well o'u dysgu ac yn teimlo'n fwy hyderus i gyfleu eu hoffterau a'u pryderon.

Yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd llais y disgybl yn nodwedd ganolog o gynllunio cyfnodau pontio. Roedd disgyblion yn helpu llunio'u llwybrau ôl-16, yn gwneud penderfyniadau gwybodus am gymwysterau ac yn cyfrannu'n ystyrlon at drafodaethau am ailintegreiddio neu ddilyniant. Roedd darparwyr a oedd yn mabwysiadu'r dull hwn yn nodweddiadol yn dangos presenoldeb gwell, ymgysylltiad cynyddol a deilliannau cryfach gan ddisgyblion.

Fodd bynnag, roedd llais y disgybl mewn gwasanaethau tiwtora yn amrywiol. Mewn llawer o ddarparwyr, disgrifiodd disgyblion y modd yr oeddent yn cael eu holi am eu barn, ond nad oeddent yn gweld newidiadau ystyrlon o ganlyniad. Roedd rhai disgyblion o'r farn fod eu cwricwlwm yn rhy gul, nad oedd yn ddigon heriol neu nad oedd yn cyd-fynd â'u diddordebau neu'u dyheadau. Mewn llwybrau tiwtora yn y gymuned ac ar-lein, roedd cyfleoedd ar gyfer llais y disgybl yn hynod gyfyngedig o ganlyniad i amser cyswllt cyfyngedig neu gapasiti staff cyfyngedig.

Prin yw'r awdurdodau lleol a oedd yn defnyddio llais y disgybl yn strategol i lywio gwneud penderfyniadau ar lefel system. O ganlyniad, nid yw cwricwla, trefniadau comisiynu a chynlluniau strategol bob amser yn adlewyrchu mewnwelediadau neu brofiadau bywyd disgyblion. Mae gwreiddio llais y disgybl o fewn llywodraethu strategol, ar lefel awdurdod lleol a darparwr, fel ei gilydd, yn cynrychioli maes pwysig i'w wella.

Pennod 2: Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae llywodraethu ac atebolrwydd cryf yn ganolog i sicrhau bod gwasanaethau tiwtora yn gweithredu'n effeithiol, yn darparu profiadau cwricwlwm teg ac yn sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion. Roedd dulliau awdurdodau lleol o fonitro a sicrhau ansawdd gwasanaethau tiwtora yn amrywio'n sylweddol. Roedd lleiafrif o awdurdodau wedi sefydlu fframweithiau sicrhau ansawdd cadarn, cydlynus ac ar draws systemau a oedd yn galluogi arweinwyr i werthuso effaith a gyrru gwelliant. Mewn cyferbyniad, roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol yn dibynnu ar ddulliau annatblygedig neu anghyson, lle mae monitro yn canolbwyntio mwy ar gydymffurfio nag ar ansawdd, effeithiolrwydd neu effaith darpariaeth addysgol. Mae ein tystiolaeth yn dangos bod awdurdodau lleol, ar y cyfan, yn aml yn cymhwyso trefniadau sicrhau ansawdd anghyson ar gyfer gwasanaethau wedi eu comisiynu, yn ymweld â darparwyr yn anaml, ac yn dibynnu gormod ar wybodaeth hunangofnodedig.

Sut mae awdurdodau lleol yn monitro a sicrhau ansawdd effaith gwasanaethau tiwtora

Roedd rôl yr awdurdod lleol mewn sicrhau ansawdd yn parhau i fod yn ysgogwr allweddol ar gyfer gwelliant a chysondeb. Roedd awdurdodau oedd â fframweithiau sicrhau ansawdd cadarn yn monitro ehangder y cwricwlwm, ansawdd yr addysgu, cynnydd disgyblion, trefniadau diogelu a chyfnodau pontio yn aml ac yn drylwyr. Roeddent yn ymgorffori cylchoedd monitro sy'n cynnwys ymweliadau, teithiau dysgu, arsylwadau, craffu ar waith a gwrando ar ddisgyblion. Roedd yr awdurdodau hyn yn defnyddio tystiolaeth o brosesau sicrhau ansawdd i fireinio trefniadau comisiynu, nodi anghenion dysgu proffesiynol tiwtoriaid ac addasu strwythurau staffio.

Fodd bynnag, nid oedd mwyafrif yr awdurdodau lleol yr ymwelom â nhw yn gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd cydlynus sy'n cwmpasu pob llwybr tiwtora. Roedd gweithgarwch monitro yn aml yn canolbwyntio'n anghymesur ar UCDau, a chraffu cyfyngedig ar wersi tiwtora gartref, tiwtora ar-lein a darpariaeth wedi'i chomisiynu ar raddfa fach. Yn yr awdurdodau hyn, roedd sicrhau ansawdd yn dibynnu'n helaeth ar wybodaeth hunangofnodedig gan ddarparwyr, fel ffigurau presenoldeb neu grynodebau cynnydd, yn hytrach nag arsylwi neu werthuso gwaith a chynnydd disgyblion yn uniongyrchol.

Mewn ychydig o awdurdodau, roedd sicrhau ansawdd yn cael ei wneud gan swyddogion unigol heb allu digonol na fframwaith strwythurol clir. Roedd hyn yn arwain at anghysondeb, oedi wrth fynd i'r afael â phryderon a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer dysgu

ar draws systemau. Mewn rhai achosion, nid oedd uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd yn ymweld â darparwyr tiwtora yn rheolaidd nac yn arsylwi addysgu yn uniongyrchol, gan gyfyngu ar eu dealltwriaeth o arfer a lleihau effeithiolrwydd her a chymorth.

Mae'r ciplun hwn yn amlygu sut mae awdurdod lleol Caerdydd wedi datblygu fframwaith sicrhau ansawdd cynhwysfawr, aml-haen sy'n cryfhau goruchwyliaeth, atebolrwydd a deilliannau disgyblion ar draws ei wasanaeth tiwtora a darpariaeth AHY ehangach.

Sicrhau ansawdd yn drylwyr yn gyrru gwelliant ac yn sicrhau deilliannau cadarnhaol ymhlith disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora (awdurdod lleol Caerdydd)

Mae Caerdydd wedi sefydlu dull hynod strwythuredig ac effeithiol i sicrhau ansawdd sy'n gweithredu ar lefelau strategol, gwasanaeth a darparwr. Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys pwyllgorau craffu, adroddiadau cabinet, Bwrdd Rheoli AHY a grwpiau sicrhau ansawdd dynodedig. Mae'r strwythurau hyn yn darparu llinellau atebolrwydd clir ac yn sicrhau bod gwasanaethau tiwtora yn cael eu hystyried fel mater o drefn o fewn fframweithiau cynhwysiant, risg a pherfformiad ehangach. Mae cytundebau lefel gwasanaeth, trefniadau diogelu ac ymweliadau monitro amserlenedig yn sail i ddisgwyliadau cyson ar gyfer pob darparwr, y mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn cael eu cofrestru a'u gwerthuso trwy fframwaith sicrhau ansawdd allanol yr awdurdod lleol.

O fewn y gwasanaeth tiwtora ei hun, mae sicrhau ansawdd yn systematig ac yn cael ei wreiddio mewn arfer o ddydd i ddydd. Mae arweinwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro rheolaidd, yn cynnwys arsylwadau, craffu ar y cwricwlwm ac adolygu gwybodaeth asesu. Defnyddir cyfnodolion dysgu, cyhoeddiadau data bob hanner tymor ac asesiadau tymhorol i olrhain cynnydd ac ymgysylltiad disgyblion, a rhennir deilliannau gyda disgyblion a rhieni a gofalwyr. Caiff presenoldeb a diogelu eu monitro'n drylwyr trwy swyddogion lles addysg AHY dynodedig a staff ymgysylltu â theuluoedd, gyda phrosesau uwchgyfeirio clir pan fydd pryderon yn codi. Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod sicrhau ansawdd yn canolbwyntio nid yn unig ar gydymffurfio ond hefyd ar ddysgu, lles a diogelwch disgyblion.

Yn bwysig, mae Caerdydd yn defnyddio gwybodaeth am sicrhau ansawdd yn werthusol i ddeall effaith a gwella deilliannau. Mae'r awdurdod lleol yn olrhain cyrchfannau a dilyniant yn agos, gan gysylltu perfformiad mewn gwasanaethau tiwtora â deilliannau AHY ehangach. Mae hyn wedi cyfrannu at welliannau mesuradwy, yn cynnwys ymgysylltiad cynyddol ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a gostyngiad yng nghyfran y disgyblion y cofnodwyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Mae canfyddiadau sicrhau ansawdd hefyd yn llywio datblygu'r cwricwlwm, penderfyniadau

comisiynu a chymorth targedig ar gyfer darparwyr y mae angen craffu agosach arnynt, gan sicrhau bod gweithgarwch gwelliant yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur.

Mae'r ciplun hwn yn dangos sut gall sicrhau ansawdd yn gadarn symud y tu hwnt i wiriadau gweithdrefnol i ddod yn ysgogwr gwelliant, tegwch ac effaith. Mae dull Caerdydd yn dangos sut y gall llywodraethu clir, disgwyliadau cyson, monitro trylwyr a defnydd gwerthusol o ddata sicrhau gwasanaethau tiwtora o ansawdd uwch, cryfhau diogelu a gwella deilliannau ar gyfer disgyblion.

Prosesau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol, yn cynnwys defnyddio data

Yn yr awdurdodau lleol mwyaf effeithiol, roedd swyddogion yn cynnal gwybodaeth gyfoes a chywir am niferoedd y disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora a nodweddion eu poblogaeth diwtora, yn cynnwys natur anghenion disgyblion, y rhesymau dros atgyfeirio a hyd yr amser mewn darpariaeth. Roedd y wybodaeth hon yn eu galluogi i nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg, cynllunio'n strategol ar gyfer capasiti a chymryd rhan mewn deialog addysgiadol ag ysgolion am ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio. Roedd awdurdodau lleol oedd â systemau olrhain data datblygedig yn tueddu i fod â goruchwyliaeth gliriach o wasanaethau wedi eu comisiynu a systemau sicrhau ansawdd cryfach.

Nid oedd pob awdurdod lleol yn cofnodi data tiwtora yn gynhwysfawr. Roedd gwybodaeth am ddisgyblion oedd yn cael gwersi tiwtora ar-lein, rhaglenni cymunedol neu becynnau wedi eu comisiynu hynod dymor byr yn anghyflawn neu'n absennol. Nid oedd ychydig o awdurdodau yn olrhain hyd, oriau darpariaeth neu fynediad pwnc yn gyson, sy'n ei gwneud yn anodd sicrhau bod profiad cwricwlwm teg ar gyfer disgyblion mewn gwasanaethau tiwtora.

At ei gilydd, mae absenoldeb setiau data cenedlaethol cydlynus yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i ddeall tueddiadau tymor hir, gwerthuso effaith neu gynllunio'n strategol ar gyfer galw yn y dyfodol ar draws y system.

Monitro mynediad at gwricwlwm perthnasol, eang a chytbwys

Nid yw monitro ehangder ac uchelgais y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd. Er bod lleiafrif o awdurdodau yn olrhain mynediad disgyblion at bynciau, cymwysterau ac oriau addysgu yn fanwl, roedd y mwyafrif yn canolbwyntio'n bennaf ar bresenoldeb wrth fonitro darpariaeth diwtora. Er bod data presenoldeb yn hanfodol, mae'n annigonol i werthuso p'un a yw disgyblion yn cael cwricwlwm eang, cytbwys a phriodol a gwersi tiwtora o ansawdd da sy'n eu cefnogi i wneud cynnydd. O ganlyniad, roedd llawer o ddisgyblion yn parhau i dderbyn darpariaeth gyfyng, nifer isel o oriau heb her briodol, ac nid oedd hyn bob amser yn cael ei nodi trwy weithgarwch monitro, ac nid aethpwyd i'r

afael ag ef, chwaith. Mewn ychydig o awdurdodau, nid oedd swyddogion yn gallu nodi bylchau yn y cwricwlwm na gwerthuso p'un a oedd llwybrau dysgu disgyblion yn cyd-fynd â'u hoedran, eu gallu a'u dyheadau.

At ei gilydd, roedd UCDau sydd â chyfrifoldeb am drefniadau tiwtora fel arfer yn cael eu hintegreiddio'n dda i drefniadau sicrhau ansawdd ar draws awdurdodau. Roedd arweinwyr UCDau yn cynnal arsylwadau addysgu ac archwiliadau cwricwlwm rheolaidd ac yn cysylltu canfyddiadau yn eglur â chynllunio gwelliant. Roedd panelau lleoli amlasiantaethol hefyd yn chwarae rôl werthusol, gan ddefnyddio gwybodaeth asesu a data cynnydd disgyblion i farnu addasrwydd parhaus lleoliadau tiwtora a nodi rhwystrau rhag dilyniant. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, roedd her gan bartneriaid gwella ysgolion a swyddogion eraill yn ychwanegu mwy o drylwyredd at brosesau gwerthuso mewnol.

Mae un enghraifft yn esbonio sut mae sicrhau ansawdd yn gadarn yn cryfhau addysgu a dysgu a mynediad at gynnig cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion.

Sicrhau ansawdd yn effeithiol o fewn gwasanaethau tiwtora (Canolfan Gyflawni'r Bont (UCD), Casnewydd)

Yng Nghanolfan Gyflawni'r Bont, mae arweinwyr wedi gwreiddio system sicrhau ansawdd soffistigedig a thrylwyr sy'n sicrhau bod disgyblion mewn AHY, yn cynnwys y rhai mewn gwasanaethau tiwtora, yn gallu manteisio ar gynnig cwricwlwm eang.

Mae arweinwyr yn gweithredu teithiau dysgu rheolaidd, craffu ar lyfrau, adolygiadau o gynlluniau ac adolygiadau o ddarpariaeth bob hanner tymor, sy'n galluogi tiwtoriaid i fyfyrio ar y cyd ar addysgeg, rhannu strategaethau effeithiol a nodi meysydd ar gyfer mwy o gefnogaeth. Mae'r adolygiadau hyn yn hynod ddylanwadol o ran gwella gwybodaeth bynciol mewn meysydd fel gwyddoniaeth a'r dyniaethau. Mae'r diwylliant dysgu proffesiynol hwn, wedi'i gyfuno â chynllunio cwricwlwm cydlynus a disgwyliadau uchel, yn arwain at gynnydd academaidd buddiol a deilliannau cymwysterau cryf ar gyfer disgyblion.

Mae'r enghraifft hon yn esbonio sut gall sicrhau ansawdd yn systematig, ac wedi'i gynllunio'n ofalus, wella ansawdd y ddarpariaeth a chryfhau arbenigedd proffesiynol o fewn gwasanaethau tiwtora. Mae darparwyr sydd â systemau tebyg yn dangos lefelau uwch o gysondeb ac effaith.

Lle roedd monitro'r cwricwlwm wedi'i datblygu'n dda mewn awdurdodau lleol, roedd swyddogion yn olrhain mynediad pwnc yn ofalus, yn nodi bylchau ac yn addasu darpariaeth yn unol â hynny. Roeddent yn craffu ar b'un a oedd disgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau priodol a ph'un a yw cyfleoedd galwedigaethol, creadigol ac ymarferol ar gael. Yn ychwanegol, roeddent yn defnyddio adborth gan ddisgyblion yn effeithiol i lywio a diwygio'r cynnig cwricwlwm, gan sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu diddordebau. Roedd yr awdurdodau'n dangos sut gall gyfer monitro'r cwricwlwm yn effeithiol hyrwyddo tegwch a chysondeb ar draws y system.

Monitro presenoldeb a diogelu disgyblion sydd angen tiwtora

At ei gilydd, mae monitro presenoldeb a diogelu mewn gwasanaethau tiwtora yn gryfder ledled Cymru. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gofyn am gofrestrau dyddiol gan wasanaethau tiwtora ac yn cynnal llwybrau cyfathrebu priodol rhwng ysgolion, UCDau a darparwyr. Roedd gweithdrefnau diogelu yn cael eu deall yn dda, ar y cyfan, ac roedd bron pob awdurdod lleol yr ymwelom ag ef yn cynnal archwiliadau diogelu blynyddol.

Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, roedd rolau a chyfrifoldebau rhwng ysgolion, darparwyr ac awdurdodau lleol yn aneglur, gan arwain at fylchau mewn cyfathrebu. Roedd dadansoddi patrymau presenoldeb yn strategol yn gyfyngedig, ac nid oedd swyddogion yn gwerthuso'n gyson sut roedd presenoldeb yn cysylltu â mynediad at y cwricwlwm, cymorth lles neu lwybrau ailintegreiddio.

Roedd profiadau rhieni a gofalwyr yn adlewyrchu'r materion hyn. Er bod y rhan fwyaf o rieni wedi mynegi hyder mewn tiwtoriaid unigol, dywedodd ychydig ohonynt eu bod yn ansicr ynghylch pwy sydd â chyfrifoldeb am oruchwylio pan fydd disgyblion yn cael darpariaeth dameidiog neu ddarpariaeth ar fwy nag un safle sy'n cynnwys cael gwersi tiwtora. Cododd lleiafrif ohonynt bryderon am sicrwydd ynghylch diogelu mewn darpariaeth wedi'i chomisiynu neu ddarpariaeth yn y gymuned lle nad oedd trefniadau sicrhau ansawdd yn cael eu cyfleu yn glir.

Rôl aelodau etholedig awdurdodau lleol, yn cynnwys craffu

Yn yr awdurdodau lleol mwyaf effeithiol prin, roedd gan aelodau etholedig rôl weithredol mewn dwyn swyddogion i gyfrif am ansawdd ac effaith gwasanaethau tiwtora. Roedd swyddogion yn adrodd ar ganfyddiadau sicrhau ansawdd, tueddiadau data a gwybodaeth am ddeilliannau i bwyllgorau craffu, gan alluogi her wybodus a thrafodaeth strategol. Mae hyn yn cryfhau tryloywder ac yn cefnogi cynllunio yn y tymor hwy.

Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau, mae craffu aelodau etholedig ar wasanaethau tiwtora yn gyfyngedig. Roedd adrodd yn tueddu i ganolbwyntio ar wybodaeth lefel uchel, fel niferoedd disgyblion yn hytrach nag ansawdd y cwricwlwm, dilyniant neu ddeilliannau ailintegreiddio. Lle roedd systemau data yn wan, nid oedd gan aelodau etholedig y wybodaeth roedd ei hangen i werthuso effeithiolrwydd neu herio tanberfformio yn ystyrlon.

At ei gilydd, mae amrywioldeb mewn monitro a sicrhau ansawdd yn adlewyrchu heriau strwythurol dyfnach. Mae awdurdodau sy'n deall eu rôl lywodraethu yn glir, yn buddsoddi mewn systemau sicrhau ansawdd gwerthusol ac yn cynnwys aelodau etholedig yn ystyrlon yn fwy tebygol o sicrhau darpariaeth deg a deilliannau cadarnhaol. Lle mae monitro yn wan, mae disgyblion yn fwy tebygol o brofi darpariaeth dameidiog, her gyfyngedig a llai o gyfnodau pontio llwyddiannus.

Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd monitro gwasanaethau wedi eu comisiynu yn dibynnu'n helaeth ar wybodaeth hunangofnodedig yn hytrach nag arsylwi uniongyrchol neu werthuso gwaith disgyblion yn fanwl. Gelir gofyn i ddarparwyr gyflenwi adroddiadau presenoldeb, data cynnydd neu ddogfennau diogelu, ond anaml yr oeddent yn cael ymweliad neu'u harsylwi. O ganlyniad, nid oedd gan awdurdodau lleol bob amser ddarlun dibynadwy o ansawdd yr addysgu, ehangder y cwricwlwm neu gynnydd disgyblion mewn darparwyr wedi eu comisiynu.

Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd gwaith sicrhau ansawdd yn cael ei wneud gan swyddogion unigol heb fframwaith strwythurol clir na chapasiti digonol. Gall hyn arwain at anghysondeb, oedi wrth ddatrys pryderon a dysgu annigonol ar draws systemau. Mewn

ychydig o awdurdodau, nid oedd uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd yn ymweld â darparwyr tiwtora yn rheolaidd nac yn arsylwi addysgu yn uniongyrchol, gan gyfyngu ar eu dealltwriaeth o ansawdd addysgu a dysgu.

At ei gilydd, mae dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad ar gyfer athrawon mewn gwasanaethau tiwtora yn anghyson ledled Cymru. Yn yr awdurdodau lleol mwyaf effeithiol, roedd rheoli perfformiad yn cyd-fynd yn agos â chanfyddiadau sicrhau ansawdd ac yn cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad staff. Roedd athrawon yn y gwasanaethau tiwtora hyn yn cael hyfforddiant targedig, er enghraifft mewn arfer sy'n ystyriol o drawma, strategaethau ADY, cymorth ymddygiad, asesu a chynllunio'r cwricwlwm. Yn aml, mae dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon mewn gwasanaethau tiwtora wedi'i deilwra'n annigonol i ofynion addysgu disgyblion ag anghenion cymhleth.

Monitro a sicrhau ansawdd ailintegreiddio disgyblion

Mae ailintegreiddio yn parhau'n un o'r agweddau gwannaf ar fonitro ledled Cymru. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau yn cofnodi p'un a yw ailintegreiddio'n digwydd, prin yw'r rhai sy'n dadansoddi pam roedd cyfraddau'n aros yn isel neu'n nodi rhwystrau systemig. Roedd cynllunio ailintegreiddio yn aml yn cael ei adael i ddarparwyr neu ysgolion ac UCDau unigol heb ddisgwyliadau cryf ar lefel system.

Roedd rhieni a gofalwyr yn aml yn nodi mai cynllunio pontio yw un o'r agweddau gwannaf ar ddarpariaeth diwtora. Disgrifiodd sawl rhiant a gofalwr bryderon am bwy sy'n monitro parodrwydd ar gyfer ailintegreiddio, dilyniant i gymwysterau neu lwybrau ôl-16. Lle roedd cynllunio pontio yn wan neu wedi'i ohirio, dywedodd rhieni a gofalwyr fod gorbryder cynyddol i ddisgyblion a theuluoedd, fel ei gilydd. Mewn cyferbyniad, lle roedd darparwyr ac awdurdodau lleol yn ymgysylltu â theuluoedd yn gynnar, yn cyfathrebu'n glir ac yn alinio cynllunio'r cwricwlwm â chyrchfannau yn y dyfodol, dywedodd rhieni a gofalwyr fod hyder gwell a chyfnodau pontio mwy esmwyth.

Mae nifer fach o ddarparwyr yn dangos deilliannau NACH eithriadol o gadarnhaol dros sawl blwyddyn, gan adlewyrchu effaith monitro a chynllunio pontio cydlynus.

Mae'r enghraifft hon yn dangos sut mae cynllunio cyfnodau pontio cynlluniedig, monitro gofalus, gwaith amlasiantaethol a chymorth bugeiliol cryf yn cyfuno i sicrhau deilliannau cadarnhaol yn y tymor hir. Mae'n disgrifio model ailintegreiddio cryf mewn ysgol uwchradd sydd wedi datblygu dull tiwtora hybrid wedi'i wreiddio mewn cynhwysiant prif ffrwd.

Cryfhau ailintegreiddio a dilyniant trwy fodel hybrid (Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, Caerffili)

Yn Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, mae disgyblion yn mynychu gwersi tiwtora AHY a ariennir gan yr awdurdod lleol am ddeuddydd ar y safle a gwersi prif ffrwd am dridiau bob wythnos. Mae'r model hybrid hwn yn cynnal parhad, yn cryfhau perthnasoedd ac yn cefnogi ailintegreiddio esmwyth. Mae disgyblion yn elwa ar raglen "ailosod" chwe wythnos strwythuredig sy'n gwella ymgysylltu ac yn eu paratoi i ddychwelyd yn llwyddiannus i ddosbarthiadau prif ffrwd. Mae presenoldeb wedi gwella'n sylweddol, ac mae presenoldeb un disgybl wedi cynyddu o 22% i 58% ar ôl cymorth cynaledig. Y gyfradd gyffredinol ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol yw 92%, sef yr uchaf yn yr awdurdod lleol. Mae bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 11 a fanteisiodd ar wersi tiwtora yn yr ysgol yn ennill o leiaf bum cymhwyster cyfwerth â TGAU, ac yn 2025, symudodd pob un o'r wyth disgybl ymlaen yn llwyddiannus i gyrchfannau cynaledig, wedi eu cefnogi gan bartneriaethau cryf gyda Gyrfa Cymru a'r swyddog ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (YEPF).

Mae'r enghraifft hon yn esbonio effaith gadarnhaol sylweddol monitro ailintegreiddio a dilyniant yn ofalus. Mae ysgolion ac awdurdodau sy'n blaenoriaethu ailintegreiddio, olrhain ei lwyddiant, ac ymyrryd yn rhagweithiol yn gallu cynnal cysylltiad disgyblion â chymuned eu hysgol yn well.

At ei gilydd, mae'r amrywioldeb mewn trefniadau monitro a sicrhau ansawdd ledled Cymru yn adlewyrchu heriau strwythurol, ac yn gysylltiedig â chapasiti, sydd wedi hen ymwreiddio o fewn goruchwylio a chomisiynu gwasanaethau tiwtora gan awdurdodau lleol. Lle nad oedd monitro wedi'i ddatblygu'n ddigonol neu'n cael ei gymhwyso'n anghyson, roedd disgyblion yn fwy tebygol o brofi darpariaeth dameidiog, her academaidd annigonol, ehangder cyfyngedig o ran y cwricwlwm a deilliannau dilyniant a phontio gwannach. I'r gwrthwyneb, mewn awdurdodau lleol a darparwyr lle roedd rolau ac atebolrwyddau ar gyfer monitro wedi eu diffinio'n glir, a lle mae arweinwyr yn buddsoddi mewn prosesau sicrhau ansawdd systematig a gwerthusol, roedd darpariaeth yn fwy cydlynus ac ymatebol, roedd disgwyliadau'n uwch ac roedd disgyblion yn cyflawni deilliannau addysgol ac ôl-16 mwy cadarnhaol. Mae'r cyferbyniad hwn yn amlygu pwysigrwydd hanfodol monitro a sicrhau ansawdd trylwyr fel lifer allweddol ar gyfer sicrhau tegwch, cysondeb a gwelliant mewn gwasanaethau tiwtora ledled Cymru.

Cwestiynau Cyffredin

1. Beth yw gwasanaethau tiwtora yng Nghymru?
Mae gwasanaethau tiwtora yn darparu addysg ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol am gyfnod o amser. Gallai hyn gynnwys addysgu un i un neu addysgu mewn grŵp bach gartref, mewn lleoliadau cymunedol, ar-lein neu drwy wasanaethau awdurdod lleol.

Mae gwersi tiwtora yn rhan o addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ac yn parhau'n gyfrifoldeb yr awdurdod lleol.

2. Pam mae disgyblion yn cael gwersi tiwtora yn hytrach na mynychu'r ysgol?
Mae disgyblion fel arfer yn cael gwersi tiwtora oherwydd na ellir diwallu eu hanghenion yn ddiogel neu'n effeithiol mewn lleoliad ysgol. Mae rhesymau cyffredin yn cynnwys gorbryder, anghenion iechyd meddwl, cyflyrau meddygol, trawma, rhesymau diogelu, gwahardd, neu wrth iddynt aros am ysgol addas neu leoliad arbenigol.

3. Faint o ddisgyblion sy'n cael gwasanaethau tiwtora yng Nghymru?
Nid oes set ddata genedlaethol gyflawn, er enghraifft CYBLD[3], sy'n dangos yn union faint o ddisgyblion sy'n cael gwersi tiwtora bob blwyddyn. Mae hyn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth o raddfa ac effaith lawn darpariaeth diwtora ledled Cymru.

Mae tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn dangos, ar draws 22 awdurdod lleol, fod ychydig dros 900 o ddisgyblion wedi eu cofrestru mewn gwasanaethau tiwtora adeg yr adolygiad. At ei gilydd, mae data cenedlaethol yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn parhau i godi, a bod 3,014 o ddisgyblion yn cael rhyw fath o ddarpariaeth AHY yn 2024–2025. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn cael addysg y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys trwy wasanaethau tiwtora.

4. A fwriedir i wersi tiwtora ddigwydd yn y tymor byr neu'r tymor hir?
Bwriedir i wersi tiwtora fod yn ymyrraeth bwrpasol yn y tymor byr. Ei nod yw helpu disgyblion i ailymgysylltu â dysgu, sefydlogi eu lles, a dychwelyd i'r ysgol neu symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant ôl-16, lle bo'n briodol.

Fodd bynnag, canfu'r adroddiad fod gwersi tiwtora yn digwydd yn y tymor hwy mewn rhai meysydd tiwtora, oherwydd pwysau ar y system ehangach.
5. Pwy sy'n gyfrifol am drefnu a goruchwylio gwersi tiwtora?

[3] Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn gasgliad electronig o ddata ar lefel disgyblion a lefel ysgolion yng Nghymru

Awdurdodau lleol sydd â'r ddyletswydd gyfreithiol i drefnu addysg addas ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY. Maent yn gyfrifol am benderfynu pryd mae angen gwersi tiwtora; comisiynu neu gyflwyno darpariaeth a sicrhau diogelu priodol; sicrhau presenoldeb a gwerthuso ansawdd darparwyr. Dylai awdurdodau lleol weithio'n agos gydag ysgolion, UCDau a darparwyr.

6. Beth ddylai disgyblion ei ddysgu tra'n cael gwersi tiwtora?
Dylai disgyblion gael cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru, cyhyd ag y bo'n rhesymol bosibl. Mae hyn yn cynnwys mwy na dim ond Saesneg a mathemateg, a dylai gefnogi cynnydd, lles a llwybrau yn y dyfodol.

I ddisgyblion sydd wedi bod allan o'r ysgol am gyfnod hir, gallai fod mwy o ffocws ar gyfoethogi'r cwricwlwm ac ailymgysylltu â dysgu.

7. Beth ganfu'r adroddiad am ansawdd gwersi tiwtora ledled Cymru?
Mae ansawdd gwersi tiwtora yn amrywio rhwng awdurdodau lleol a darparwyr. Mae rhai ohonynt yn cynnig cwricwlwm uchelgeisiol, cynlluniedig a chefnogaeth gref. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn cael oriau cyfyngedig iawn a chwricwlwm cul, sy'n cyfyngu ar gynnydd a chyfleoedd yn y dyfodol.

8. Sut caiff disgyblion ag ADY eu cefnogi?
Mae disgyblion ag ADY yn cadw eu hawliau cyfreithiol llawn, hyd yn oed wrth gael gwersi tiwtora. Mae arfer effeithiol yn cynnwys CDUau, dulliau sy'n ystyriol o drawma a gwaith amlasiantaethol.

Fodd bynnag, canfu'r adroddiad fod cymorth ADY ar gyfer disgyblion sy'n cael gwersi tiwtora yn anghyson yn genedlaethol.

9. A yw disgyblion yn gallu cael gwersi tiwtora trwy gyfrwng y Gymraeg?
Ydyn, dylai disgyblion allu cael gwersi tiwtora trwy gyfrwng y Gymraeg lle mae hyn yn adlewyrchu eu cefndir iaith a'u hanghenion addysgol. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad fod cyfle i fanteisio ar wersi tiwtora cyfrwng Cymraeg yn anghyson ledled Cymru.

Mae nifer fach o awdurdodau lleol wedi cynllunio llwybrau tiwtora dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg sy'n helpu disgyblion i gynnal eu medrau iaith a'u hunaniaeth. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae darpariaeth yn dibynnu ar argaeledd tiwtoriaid unigol sy'n siarad Cymraeg yn hytrach na dull strategol. O ganlyniad, mae rhai disgyblion yn profi tarfu ar ddysgu cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, sy'n gallu effeithio ar hyder, cymwysterau ac ailintegreiddio i addysg cyfrwng Cymraeg.
10. Sut caiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys?

Dylid hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson a'u cynnwys mewn penderfyniadau am diwtora, cynnydd a'r camau nesaf. Lle mae trefniadau awdurdodau lleol yn glir ac yn cael eu cydlynu'n dda, mae rhieni a gofalwyr yn sôn am brofiadau cadarnhaol. Lle mae goruchwyliaeth yn wannach, mae rhieni a gofalwyr yn aml yn profi ansicrwydd ac oedi.

11. Sut mae awdurdodau lleol yn gwirio bod gwersi tiwtora yn gweithio?
Dylai awdurdodau lleol fonitro presenoldeb, diogelu, ansawdd yr addysgu, ehangder y cwricwlwm a chynnydd disgyblion. Canfu'r adroddiad, er bod diogelu yn gryf, ar y cyfan, yn aml, nid yw sicrhau ansawdd yr addysgu a'r cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol, yn enwedig ar gyfer darparwyr preifat wedi eu comisiynu a gwersi tiwtora ar-lein.

12. Beth ddylai ddigwydd pan ddaw gwersi tiwtora i ben?
Dylai fod cynllunio clir ar gyfer cyfnodau pontio, p'un a yw hyn yn golygu dychwelyd i'r ysgol, symud i leoliad arall, neu ddilyniant i addysg ôl-16, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae cynllunio cyfnodau pontio cryf yn arwain at ddeilliannau gwell, ond mae hyn yn parhau'n anghyson ledled Cymru.

Dulliau a sail y dystiolaeth

Casglwyd tystiolaeth trwy gyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol. Anfonom arolwg cychwynnol i bob awdurdod lleol i roi trosolwg o wasanaethau tiwtora presennol, yn cynnwys trefniadau, arferion comisiynu a phrosesau monitro. Cawsom 20 o ymatebion gan 20 awdurdod lleol.

Yn ychwanegol, cynhaliom gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhithwir gyda swyddogion arweiniol sy'n gyfrifol am AHY a gwasanaethau tiwtora mewn awdurdodau lleol. Cyfarfuom â swyddogion o 18 awdurdod lleol a chael gwybodaeth gan bedwar awdurdod lleol arall. O ganlyniad, cawsom wybodaeth gan bob awdurdod lleol. Galluogodd y cyfarfodydd hyn i ni archwilio arweinyddiaeth strategol, trefniadau llywodraethu a heriau gweithredol yn fanylach.

Ymwelom ag 14 darparwr gwersi tiwtora, yn cynnwys ysgolion, UCDau a darparwyr AHY allanol wedi eu comisiynu. Galluogodd yr ymweliadau hyn i arolygwyr werthuso ansawdd yr addysgu, cynllunio'r cwricwlwm, ymgysylltu â dysgwyr a chymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod ymweliadau, cyfarfuom ag uwch arweinwyr, tiwtoriaid a disgyblion, cynhaliom deithiau dysgu a buom yn craffu ar waith disgyblion. Cyfarfuom â thros 60 o ddisgyblion yn unigol ac mewn grwpiau bach ar draws yr 14 darparwr. Buom hefyd yn adolygu dogfennau, yn cynnwys CDUau, cynllunio'r cwricwlwm a llwybrau cymhwyster. Yn ychwanegol, holom farn rhieni a gofalwyr am eu profiadau o ddarpariaeth. Gellir dod o hyd i gopïau o'r ddau arolwg ar ein gwefan.

Dewiswyd awdurdodau lleol, ysgolion, UCDau a darparwyr i adlewyrchu ystod y cyfryngau iaith, meintiau, mathau o ddarparwyr, lleoliadau daearyddol a chyd-destunau economaidd-gymdeithasol.

Hefyd, defnyddiom dystiolaeth o weithgarwch arolygu parhaus ac o drafodaethau rhwng arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol a swyddogion awdurdodau lleol. Cynhaliwyd yr holl drafodaethau yn ystod tymor yr hydref 2025 a chynhaliwyd y rhan fwyaf ohonynt wyneb yn wyneb.

Cafodd tystiolaeth o wahanol ffynonellau ei thriongli i lywio barnau gwerthusol. Ystyriwyd canfyddiadau yn llawn, gyda sylw penodol i gysondeb rhwng goruchwyliaeth awdurdodau lleol, arfer darparwyr a phrofiadau disgyblion.

Canolbwyntiodd yr adolygiad ar wasanaethau tiwtora wedi eu comisiynu neu rai sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol ar gyfer disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr

ysgol. Mae canfyddiadau'n ymwneud â'r sampl o awdurdodau lleol, ysgolion, UCDau a darparwyr sydd wedi eu cynnwys yn yr adolygiad. Ni wnaeth yr adolygiad werthuso addysg ddewisol yn y cartref nac ymyriadau mewn ysgolion prif ffrwd oni bai bod y rhain yn ffurfio rhan o drefniadau tiwtora awdurdodau lleol.

Hoffai Estyn ddiolch i'r canlynol am gymryd rhan yn yr arolygiad thematig hwn:

Darparwr	**Awdurdod Lleol**
UCD Portffolio Darpariaeth Amgen Y Bont	Pen-y-bont ar Ogwr
Canolfan Gyflawni'r Bont	Casnewydd
Gwasanaeth Tiwtora ALl Caerdydd	Caerdydd
Gwasanaethau Tiwtora Sir Gaerfyrddin	Sir Gaerfyrddin
Creative in Excellence	Sir Ddinbych
Educate Group	Wrecsam
Equity Foundation Ltd.	Merthyr
UCD Gorwelion Newydd	Wrecsam
Uned Cyfeirio Disgyblion Maes Derw	Abertawe
UCD Plas Derwen	Sir y Fflint
The Hive (Gwersi Tiwtora yn y Gymuned)	Caerffili
Canolfan Addysg Tŷ Gwyn	Rhondda Cynon Taf
Gwasanaethau Tiwtora Bro Morgannwg	Bro Morgannwg
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Caerffili
Ysgol Gymunedol Rhisga	Caerffili

Geirfa

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod	Digwyddiadau ingol neu drawmatig, yn cynnwys cam-drin neu esgeuluso. Gallent hefyd gynnwys camweithredu ar yr aelwyd fel bod yn dyst i drais domestig neu dyfu i fyny gydag aelodau teuluol sydd ag anhwylderau camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl neu mewn carchar
ADY	Anghenion dysgu ychwanegol
DDdY	Darpariaeth ddysgu ychwanegol (ar gyfer disgyblion sydd ag ADY)
MDPh	Meysydd dysgu a phrofiad
AYEC	Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
CAMHS	Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc
Darparwr wedi'i gomisiynu (neu ddarparwr allanol wedi'i gomisiynu)	Sefydliad neu unigolyn sydd wedi'i gontractio gan awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau addysg neu gymorth, yn hytrach na'i fod yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu ysgol.
EBSA	Osgoi mynd i'r ysgol ar sail emosiynol
ADdC	Addysg ddewisol yn y cartref
AHY	Addysg heblaw yn yr ysgol
Continwwm AHY	Ystod y trefniadau addysgol sydd ar gael i ddisgyblion sy'n cael AHY, o ymyriadau tymor byr fel gwersi tiwtora i ddarpariaeth arbenigol neu ddarpariaeth amgen tymor hwy, yn dibynnu ar anghenion disgyblion.
CDU	Cynllun datblygu unigol
Arolygydd cyswllt awdurdod lleol	Arolygydd Estyn sy'n gweithio gydag awdurdod lleol penodol i gynnal perthynas broffesiynol barhaus, cefnogi

(ACALl)	dealltwriaeth o ganfyddiadau arolygu a darparu parhad rhwng arolygiadau a gwaith thematig.
NACH	Nid mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant – Term a ddefnyddir i ddisgrifio pobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fe'i defnyddir yn aml i fesur cyfranogiad ôl-16 a deilliannau tymor hwy
CYBLD	Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yng Nghymru yn ofyniad statudol i ysgolion ddychwelyd cyfrifiad blynyddol o ddisgyblion unigol. Caiff ei orchymyn gan Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003 ac mae'n cynnwys data ar weithgareddau dysgu unigol disgyblion ôl-16.
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
CCB	Cynllun cymorth bugeiliol
Arfer berthynol	Dull sy'n rhoi perthnasoedd cadarnhaol, cyson wrth wraidd darpariaeth, gan ddefnyddio ymddiriedaeth, empathi a chyfathrebu clir i gefnogi ymgysylltu, lles a chynnydd
Arfer sy'n ystyriol o drawma	Dull sy'n cydnabod effaith trawma ar ymddygiad, lles a dysgu plentyn neu berson ifanc, ac yn ymateb trwy greu amgylcheddau diogel a chefnogol sy'n osgoi ail achosion o drawma ac yn hyrwyddo gwydnwch.
YEPF	Fframwaith ymgysylltiad a chynnydd ieuenctid

Niferoedd – meintiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%

ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Bridgeman, J. (2024) 'Examining alternative provision (AP) in two local authorities in Wales: Rationale, results, and resources,' *Cylchgrawn Addysg Cymru / Wales Journal of Education*, 26(1). https://doi.org/10.16922/wje.26.1.3. (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2024) *Cabinet – 21 Chwefror 2024: Support for pupils unable to attend school (formerly known as home tuition).* Ar gael yn: Addysg y tu allan i'r ysgol (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Comisiynydd Plant Cymru (2023) *Adroddiad sbotolau ar y ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghymru*. Ar gael yn: Adroddiad Addysg mewn Gofal Iechyd (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2019) Addysg heblaw yn yr ysgol: Nodyn o ymweliadau'r pwyllgor ar 28 Tachwedd 2019. Ar gael yn: CYPE5-03-20 -Nodyn o ymweliadau ar 28 Tachwedd (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2020) Ymgysylltu â Dinasyddion: Crynodeb Arolwg Ar-lein Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Ar gael yn: Ymgysylltu â Dinasyddion: Crynodeb Arolwg Ar-lein Addysg Heblaw yn yr Ysgol 19 Mawrth 2020 (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Estyn (2023) *Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol*. Ar gael yn: Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) - Estyn (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Hwb (2024) *Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)*. Ar gael yn: Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) - Hwb (Darllenwyd: 17 Mehefin 2025)

Hwb (2024) *Cwricwlwm i Gymru: crynodeb o ddeddfwriaeth*. Ar gael yn: Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) - Hwb (Darllenwyd: 17 Mehefin 2025)

Miller Research (2021) *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion i'r canllawiau ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol: Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael yn: Crynodeb o'r ymatebion i'r canllawiau ychwanegol ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Rhondda Cynon Taf (2024) *Polisi Tiwtora Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)*. Ar gael yn: Polisi Tiwtora Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Ymchwil y Senedd (2019) *Addysg Heblaw yn yr Ysgol: Briff Ymchwil.* Ar gael yn: Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Cyngor Abertawe (2025) *Addysg ddewisol yn y cartref*. Ar gael yn: https://www.abertawe.gov.uk/addysgDdewisolynyCartref (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2016) *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (Canllawiau 'Cerrig mân').* Ar gael yn: canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2017) *Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd*. Ar gael yn: WG31248 (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2018) *Dadansoddiad o Banelau Atgyfeirio awdurdodau lleol ac/neu arferion ar gyfer disgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth AHY.* Ar gael yn: Adolygiad o awdurdodau lleol sy'n cyfeirio disgyblion i addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) | LLYW.CYMRU (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2018) *Dadansoddiad o Ymarferion Cofrestru Disgyblion awdurdodau lleol ar gyfer disgyblion sy'n defnyddio darpariaeth UCD ac AHY.* Ar gael yn: Adolygiad o'r broses gofrestru ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio unedau cyfeirio disgyblion (UCD) a dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) | LLYW.CYMRU (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2019a) *Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) Fframwaith Gweithredu.* Ar gael yn: Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY): fframwaith gweithredu | LLYW.CYMRU (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2019b) *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion*. Ar gael yn: Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (Darllenwyd: Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2020) *Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 39/2020*. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/adolygiad-o-drefniadau-comisiynu-awdurdodau-lleol-ar-gyfer-darpariaeth-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol.pdf (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2021) *Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol.* Ar gael yn: WG42005 (Darllenwyd: Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2023) *Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi; Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr*. Ar gael yn: Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr (Darllenwyd: Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2024) *Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru ar Addysg mewn Lleoliadau Gofal Iechyd: ymateb Llywodraeth Cymru*. Ar gael yn: Adroddiad Comisiynydd Plant Cymru ar Addysg mewn Lleoliadau Gofal Iechyd: ymateb Llywodraeth Cymru LLYW.CYMRU (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2024) *Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2023 i Awst 2024 (diwygiad)*. Ar gael yn: Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2023 i Awst 2024 (diwygiad) | LLYW.CYMRU (Darllenwyd: 23 Mehefin 2025)

Llywodraeth Cymru (2025) *Ymchwil ar wireddu'r Cwricwlwm i Gymru mewn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY): ymateb y llywodraeth*. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymchwil-ar-wireddur-cwricwlwm-i-gymru-mewn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-ymateb-y-llywodraeth-html (Darllenwyd: Gorffennaf 2025)

Deddfwriaeth

Adran 4 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Adran 19A(1) Deddf Addysg 1996
Adran 19(6) Deddf Addysg 1996
Adran 463 Deddf Addysg 1996
Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2020
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Atodiad 1: Mwy o arweiniad

Sut mae deddfwriaeth yn diffinio addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd angen gwasanaethau tiwtora?

At ddibenion yr adroddiad thematig hwn, diffinnir addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn unol ag adran 19A(1) Deddf Addysg 1996 sy'n rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas, yn yr ysgol neu fel arall, ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol sydd, oherwydd salwch, cael eu gwahardd o'r ysgol neu fel arall, ddim efallai'n derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer.

O dan adran 19(6) yr un Ddeddf, diffinnir addysg addas fel *addysg sy'n effeithlon ac yn addas i oedran, gallu a thueddiadau'r person ifanc, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo.* Mae gwasanaethau tiwtora yn ffurfio un mecanwaith y mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r ddyletswydd hon trwyddo, yn enwedig lle na all disgyblion gael mynediad yn rhesymol at ddarpariaeth mewn ysgol.

Y tu hwnt i'r hyn a nodir mewn deddfwriaeth, nid oes diffiniad clir ac a ddeellir yn gyffredin o AHY ledled Cymru. Yn ymarferol, defnyddir terminoleg yn anghyson, ac mae'r termau *"darpariaeth amgen"* neu *"cwricwlwm amgen"* yn aml yn cael eu defnyddio'n anghywir i ddisgrifio trefniadau AHY. Dangosodd ein tystiolaeth fod y diffyg dealltwriaeth ar y cyd hwn yn cyfrannu at amrywiad mewn arferion awdurdodau lleol, yn cynnwys gwahaniaethau o ran beth oedd yn cael ei gomisiynu, sut roedd darpariaeth yn cael ei chategoreiddio, a sut roedd ansawdd yn cael ei fonitro.

Yn gyffredinol, mae gwasanaethau tiwtora wedi eu cynnwys yn rhan o ddarpariaeth AHY lle mae addysg yn cael ei hariannu, ei threfnu neu'i darparu gan yr awdurdod lleol. Nid yw'r astudiaeth thematig hon yn cynnwys disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref (ADdC), gan nad ystyrir bod y disgyblion hyn yn cael AHY o dan Ddeddf Addysg 1996.

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar AHY, ar gyfer disgyblion sydd angen gwersi tiwtora

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn sefydlu gofynion cwricwlwm statudol ar gyfer disgyblion 3–16 oed yng Nghymru, yn cynnwys y rhai sy'n cael addysg trwy drefniadau AHY fel gwasanaethau tiwtora. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn egluro mai awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am drefnu AHY, yn hytrach nag ysgolion a gynhelir.

Er y gallai ysgolion a gynhelir ddarparu addysg y tu allan i'w safleoedd o dan Ddeddf Addysg 2002, mae'r dyletswyddau cyfreithiol yn ymwneud â'r cwricwlwm yn wahanol i'r rhai sy'n berthnasol i ddarpariaeth AHY. Mae Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) - Hwb yn berthnasol yn benodol i ddarpariaeth sy'n cael ei hariannu, ei threfnu ac/neu'i chynnig gan awdurdodau lleol, yn cynnwys gwasanaethau tiwtora.

Rhaid i'r athro sydd â gofal am UCD sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei weithredu mewn ffordd sydd:

- *yn galluogi'r dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben*
- *yn sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cynnig dilyniant priodol ar gyfer y dysgwr*
- *yn addas ar gyfer oedran, gallu a thueddiadau'r dysgwr*
- *yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y dysgwr (os oes unrhyw ADY)*
- *yn sicrhau dysgu ac addysgu sy'n eang a chytbwys, cyhyd ag y bo'n briodol i'r dysgwr*

Rhaid i'r athro sydd â gofal am UCD sicrhau bod ei gwricwlwm yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau dysgu ac addysgu ar gyfer pob dysgwr sydd:

- *yn cwmpasu'r Maes Iechyd a Lles*
- *yn cwmpasu'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol (sy'n addas ar gyfer cyfnod datblygu pob dysgwr)*
- *yn datblygu'r medrau trawsgwricwlaidd gorfodol*

Rhaid i'r athro sydd â gofal hefyd ystyried pa ddysgu ac addysgu y byddai'n briodol eu darparu ar gyfer pob dysgwr yn y Meysydd eraill a'r elfennau gorfodol eraill; a sicrhau, cyhyd ag y bo'n rhesymol bosibl, bod y dysgu a'r addysgu yn cael eu darparu ar gyfer y dysgwr.

Gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar gyfer disgyblion sy'n cael AHY ac angen gwersi tiwtora

Cyflwynodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 | Cyfraith Cymru system 0–25 unedig ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gyda dyletswyddau statudol yn ymwneud â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn sail iddi.

Mae disgyblion sy'n cael AHY ac yn cael gwasanaethau tiwtora yn cadw eu hawliau ADY statudol llawn, ni waeth ble caiff yr addysg ei darparu. Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021) yn egluro cyfrifoldeb am gynnal CDUau mewn gwahanol drefniadau AHY. Lle mae disgyblion wedi eu cofrestru yn eu hysgol wreiddiol o hyd, gallai'r ysgol honno barhau i gynnal y CDU. Lle mae disgyblion wedi eu cofrestru mewn mwy nag

un lleoliad, yn cynnwys cofrestriad mewn UCD, mae cyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol. Mewn achosion lle mae disgyblion yn cael gwersi tiwtora gartref neu mewn ysbyty tra'n parhau wedi eu cofrestru yn eu hysgol wreiddiol, gallai fod yn fwy priodol i'r awdurdod lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal y CDU.

Mae angen atebolrwydd clir a gwaith amlasiantaethol effeithiol ar gyfer y trefniadau hyn, yn enwedig lle mae gwasanaethau tiwtora yn ffurfio rhan o becynnau cymorth cymhleth neu esblygol ar gyfer disgyblion bregus.

Materion allweddol o adolygiad thematig Estyn, Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), a gyhoeddwyd ym Mehefin 2023

Nododd adolygiad thematig Estyn Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), a gyhoeddwyd ym Mehefin 2023, nifer o heriau systemig wrth sicrhau tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, yn cynnwys y rhai sy'n cael gwasanaethau tiwtora.

Canfu'r adolygiad fod disgyblion sy'n cael gwersi tiwtora yn derbyn oriau cyfyngedig o addysg mewn gormod o awdurdodau lleol, a dim ond mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol yr oedd disgyblion yn cael mwy na 10 awr o addysg yr wythnos. Dim ond mewn ychydig iawn o achosion yr oedd gwasanaethau tiwtora yn darparu mynediad at gynnig cwricwlwm llawn sy'n cyd-fynd â disgwyliadau statudol.

Lle roedd arfer gryfach yn bodoli, roedd yn aml yn cynnwys mynediad cynlluniedig at ddysgu ar-lein, cymorth iechyd a lles emosiynol integredig, a threfniadau cliriach i gefnogi ailintegreiddio i addysg brif ffrwd. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd gwendidau yn ehangder y cwricwlwm, monitro presenoldeb a sicrhau ansawdd yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i wneud cynnydd a dychwelyd yn llwyddiannus i'r ysgol.

Gwnaeth yr adolygiad gyfres o argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol, yn cynnwys yr angen i gryfhau monitro presenoldeb, sicrhau darpariaeth y cwricwlwm ar draws pob darparwr AHY, a gwella trefniadau sicrhau ansawdd a goruchwylio.